




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymyriad diogel ac effeithiol –
defnyddio grym rhesymol a
chwilio am arfau



Canllawiau

Dogfen canllawiau rhif: 097/2013

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2013

Yn disodli dogfen canllawiau rhif: 041/2012

Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru; awdurdodau lleol; undebau addysgu ac undebau eraill; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; a chyrrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â dwy elfen: canllawiau diwygiedig ar ddefnyddio grym, a phwerau newydd i chwilio am arfau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006.
- Camau i'w cymryd** Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at y canllawiau hyn wrth ddefnyddio grym ac wrth chwilio am arfau.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Tel: 029 2082 6080
e-bost: wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk
- Mae'r ddogfen hon a gwybodaeth gryno ychwanegol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/cynnwysachynorthwyodisgyblion
- Dogfennau cysylltiedig** *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 47/2006
Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion Dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 081/2012
Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)

Cynnwys

Crynodeb	1
Cyflwyniad	2
Adran 1: Defnyddio grym rhesymol i reoli neu atal disgyblion	4
1. Cyflwyniad	4
2. Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud	6
3. Arfer effeithiol i ysgolion	8
Polisiau a gweithdrefnau	8
Lleihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen defnyddio grym	9
Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a/neu anableddau	9
Sicrhau bod staff yn gwybod pwy sydd â phŵer statudol i ddefnyddio grym	11
Penderfynu a fyddai defnyddio grym yn briodol	11
Enghreifftiau o sefyllfaoedd	12
Asesiadau risg	12
Sefyllfaoedd pan na ddylai staff ymyrryd fel arfer heb gymorth	13
Defnyddio grym	13
Defnyddio ystafelloedd ac ardaloedd tawel	14
Hyfforddiant staff	15
Cofnodi ac adrodd digwyddiadau	15
Cymorth ar ôl digwyddiadau	17
Ymdrin â chwynion a chyhuddiadau	18
Cyswllt corfforol â disgyblion mewn amgylchiadau eraill	19

4.	Y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiad difrifol:	21
	Cyflwyniad	21
	Canllawiau polisi model ar gyfer awdurdodau lleol	21
	Canllawiau polisi model ar gyfer ysgolion arbennig	24
	Asesu a rheoli risgiau i blant sy'n cyflwyno ymddygiad Heriol – datblygu Cynllun Rheoli Ymddygiad	30
	Atodiad 1A: Polisiâu ysgolion – fframwaith awgrymedig	35
	Atodiad 1B: Ffurflen cofnod o ddigwyddiadau	38
	Atodiad 1C: Profforma ar gyfer asesu a rheoli risgiau rhagweladwy ar gyfer plant sy'n cyflwyno ymddygiad heriol	39
	Adran 2: Sgrinio a chwilio disgyblion am arfau	43
1.	Cyflwyniad	43
2.	Cwmpas y pwerau	44
3.	Rôl cyflogwr ysgol: datganiad o bolisi'r ysgol	46
4.	Dewisiadau cyn chwiliad heb ganiatâd	47
5.	Yn ystod chwiliad: agweddau ymarferol	48
6.	Hyfforddiant ar gyfer staff ysgol	51
7.	Cyswllt rhwng yr ysgol a'r heddlu lleol	51
8.	Defnyddio staff o gwmnïau diogelwch	52
9.	Awdurdodi	52
10.	Amheuon rhesymol (sy'n caniatáu i chwiliad gael ei gynnal)	53
11.	Lleoliad	54
12.	Graddau'r chwiliad – dillad ac eiddo	54
13.	Defnyddio grym	55
14.	Anghenion addysgol arbennig/anghenion meddygol	55
15.	Canlyniadau	56

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar ddwy agwedd y bwriedir iddynt gefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a'u partneriaid wrth ddarparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc. Cyflwynwyd y pŵer i allu chwilio disyblion am arfau heb eu caniatâd yn mis Hydref 2010. Mae'r pŵer i ddefnyddio grym rhesymol yr un fath, i bob pwrpas, a'r pŵer oedd eisoes yn ei le, a gyflwynwyd yn Neddf Addysg 1996.

Mae'r ddwy adran o'r canllaw fel a ganlyn:

Adran 1

Canllaw diwygiedig ar y defnydd o rym i reoli neu atal disgyblion. Mae hwn yn ganllaw mwy cynhwysfawr sy'n disodli'r canllaw presennol a gynhwysir yng Nghylchlythyr 37/98 y Swyddfa Gymreig. Ceir dwy brif adran i'r canllawiau, mae un yn berthnasol i bob ysgol a disgybl ac mae'r llall yn berthnasol i ddisgyblion ag anawsterau ymddygiad difrifol, a fydd yn berthnasol iawn i ysgolion arbennig.

Adran 2

Canllawiau sy'n gysylltiedig â'r pŵer newydd i ysgolion allu chwilio disgyblion am arfau heb eu caniatâd, sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006. Mae hwn yn bŵer newydd yn hytrach nac yn ddyletswydd ac felly nid yw'n cyflwyno unrhyw ofyniad newydd i ysgolion sy'n dewis peidio â defnyddio'r pŵer.

Cyflwyniad

1.1. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllaw ar ddau bŵer sydd ar gael i ysgolion i'w helpu i reoli ymddygiad. Cyflwynwyd y pwerau ym mis Hydref 2010 ac maent fel a ganlyn:

- Adran 1: Defnyddio Grym i Reoli neu Atal Disgyblion, y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, a oedd yn disodli Adran 550A o Ddeddf Addysg 1996, gyda mân newidiadau. Mae'r canllaw yn disodli'r canllaw presennol yng Nghylchlythyr 37/98 y Swyddfa Gymreig.
- Adran 2: Sgrinio a Chwilio Disgyblion am Arfau, y pwerau newydd sydd yn Adran 45 Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006.

1.2. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ddisgybledig ac yn lleoliadau dysgu cynhyrchiol, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cefnogi athrawon a staff ysgol eraill i ddelio'n effeithiol ag ymddygiad gwael a thrafferthus, wrth leihau, ar yr un pryd, effaith aflonyddgar hyn ar ddisgyblion eraill, ac felly eu posibiladau bywyd.

1.3. Yn hytrach na chynyddu nifer y cosbau y gellir eu defnyddio ar gyfer disgyblion, bwriedir i'r newidiadau deddfwriaethol sicrhau mwy o eglurder ar yr hyn y gall ysgolion ei wneud i hybu ymddygiad cadarnhaol a hybu mwy o gysondeb wrth eu defnyddio ar hyd a lled Cymru. Bydd hyn yn ei dro yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc i gael eu trin yn gyson ac yn deg.

1.4. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion er mwyn datblygu a hybu dulliau gweithredu effeithiol yn ysgolion Cymru, sy'n cynnwys hybu ymddygiad cadarnhaol ac ymdrin ag ymddygiad trafferthus. Mae'r Fframwaith yn cyflwyno diben cenedlaethol i ysgolion ac mae dwy elfen o'r fframwaith hwn yn arbennig o berthnasol i'r diben o gynnal ysgolion fel amgylcheddau diogel sy'n hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ddwy elfen hyn fel a ganlyn:

- galluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu eu potensial llawn drwy feithrin sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, yn cynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion gweithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol ac yn ddysgwyr gydol oes; a
- hybu diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharchu amrywiaeth, yn arbennig drwy ddatblygu lles dysgwyr a phersonoli eu dysgu

1.5. Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgolion 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru sefydlu cyngor ysgol sydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd gan y disgyblion ac sy'n cwrdd o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Mae cyngor yr ysgol yn gyfrwng democrataidd sy'n galluogi pob disgybl i gael llais ac i bobl wrando ar eu safbwyntiau hwy, a nodir yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod ysgolion yn datblygu Polisi Cyfranogi ar gyfer yr ysgol gyfan sy'n

disgrifio'r ffyrdd amrywiol y gall disgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy ar wahanol lefelau o'u bywyd ysgol (e.e. yn cynnwys cynghorau dosbarth, eco-ysgolion, ysgolion iach, mentoriaid cymheiriaid, asesiadau ar gyfer dysgu ac yn y blaen).

1.6. Mae ymddygiad cadarnhaol yn berthnasol i bob disgybl, a sicrhau eu bod yn profi amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol. Mae'r polisiau hyn yn fwy tebygol o gael eu parchu a'u dilyn pan fydd disgyblion wedi cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o lunio a monitro polisiau ymddygiad a'u bod o bwys iddynt. Gall disgyblion gymryd rhan mewn nifer o ffyrdd amrywiol – e.e. drwy

- ymgynghoriadau, blychau awgrymiadau a grwpiau ffocws;
- cynlluniau i hybu a gweithredu ymddygiad cadarnhaol - e.e. systemau mentoriaid cymheiriaid;
- cyfrannu at y gwaith o ddiwygio a monitro polisi ymddygiad ysgol gyfan;
- datblygu codau ymddygiad ar lefel dosbarthiadau; a
- gweithredu cynlluniau gwobrwyo a theilyngdod.

1.7. Drwy gynnwys disgyblion wrth hybu a gweithredu ymddygiad cadarnhaol, dylai ysgolion ddilyn Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru.

1.8. Dylid ystyried y canllaw hwn o fewn y fframwaith cynhwysiant a chefnogi disgyblion a nodir yng Nghylchlythyr 47/06 Llywodraeth Cymru. Dylid ei ystyried hefyd ochr yn ochr â'r gyfres gyffredinol o ganllawiau ar yr agweddau hyn yn cynnwys canllawiau ar waharddiadau, mynd i'r afael â bwllo a Chod Ymarfer AAA.

Adran 1: Ddefnyddio grym rhesymol i reoli neu atal disgyblion

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r canllaw hwn yn disodli'r canllaw presennol yng Nghylchlythyr 37/98 y Swyddfa Gymreig ac mae'n darparu cyfeiriad ar bwerau staff ysgolion i ddefnyddio grym fel y'u nodir yn Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Daeth y pwerau hyn i rym ym mis Hydref 2010 ac roeddent yn disodli Adran 550A Deddf Addysg 1996, gyda mân newidiadau.

1.2. Mae gan bob aelod o staff ysgolion bŵer cyfreithiol i ddefnyddio grym rhesymol i atal disgyblion rhag cyflawni trosedd, anafu eu hunain neu eraill, neu ddifrodi eiddo; ac a chynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith y disgyblion.

1.3. Dylid canolbwyntio ar atal, i'r graddau y bydd hynny'n bosibl, yr angen i ddefnyddio grym ar ddisgyblion, gan greu awyrgylch tawel, disgybledig a chefnogol yn yr ysgol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath. Dylid ond defnyddio grym fel y dewis olaf, a dylai ysgolion leihau'r posibilrwydd o fod angen grym. Fodd bynnag, efallai na fydd hynny bob amser yn bosibl ac mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen i staff fod yn ymwybodol o'r materion sensitif sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o gyswllt corfforol â disgyblion.

1.4. Ni ddylai ysgolion byth geisio rhwystro gallu aelodau o staff i ddefnyddio grym drwy fabwysiadu polisi 'dim cyswllt'. Mae'r pŵer i ddefnyddio grym yn helpu i sicrhau diogelwch disgyblion a'r ysgol a'r perygl sy'n gysylltiedig â pholisi dim cyswllt yw y gallai olygu bod aelod o staff yn torri eu dyletswydd gofal tuag at ddisgybl, neu'n eu hatal rhag gweithredu mewn ffordd sydd ei hangen i atal disgybl rhag achosi anafiadau i eraill.

1.5. Diben deddfu ar y defnydd o rym oedd darparu pŵer clir a thryloyw sy'n galluogi staff i ddefnyddio grym rhesymol ar ddisgyblion mewn amgylchiadau penodol, wrth ddiogelu plant a phobl ifanc ar yr un pryd rhag trais corfforol, anafiadau neu gamdriniaeth, fel y'u nodir yn Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllaw ar sut y dylid arfer y pŵer, yn arbennig er mwyn:

- helpu staff ysgolion i ddeall beth mae'r gyfraith yn ei olygu iddynt hwy yn ymarferol;
- diogelu disgyblion drwy leihau'r risgiau y gellir defnyddio grym yn amhriodol; a
- darparu cyngor ar arfer da.

1.6. Mae'r term 'defnyddio grym' yn cwmpasu'r strategaethau amrywiol sy'n cynnwys rhywfaint o bŵer corfforol i atal disgyblion rhag anafu eu hunain neu eraill, gwneud difrod i eiddo neu achosi anrhefn. Mae'r ystod yn amrywio o afael yn llaw neu fraich disgybl i'w arwain i ddiogelwch i amgylchiadau eithriadol pan fydd angen atal disgybl er mwyn atal trais neu anaf iddynt hwy neu i eraill.

1.7. Mewn ysgolion, defnyddir grym yn gyffredinol ar gyfer dau ddiben gwahanol – i reoli disgyblion ac i'w hatal.

- Gall rheoli olygu cyswllt corfforol goddefol (e.e. sefyll rhwng disgyblion neu atal llwybr disgybl) neu gyswllt corfforol gweithredol (e.e. gafael yn llaw neu fraich disgybl i'w harwain neu dywys disgybl i ffwrdd drwy osod llaw yng nghanol y cefn).
- Pan fydd aelodau o staff yn defnyddio “ataliaeth” maent yn atal disgybl yn gorfforol rhag parhau i wneud yr hyn yr oeddent yn ei wneud ar ôl i chi ddweud wrthynt am stopio. Defnyddir technegau atal fel arfer mewn amgylchiadau mwy eithafol, pan fydd dau ddisgybl yn ymladd ac mae angen ymyriad corfforol i'w gwahanu.

1.8. Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellid defnyddio grym rhesymol:

- atal disgybl rhag ymosod ar aelod o staff, neu ddisgybl arall, neu i atal dau ddisgybl neu fwy rhag ymladd;
- atal disgybl rhag gwneud difrod bwriadol i eiddo;
- atal disgybl rhag achosi anaf neu ddifrod yn ddamweiniol; drwy chwarae'n wyllt, neu drwy gamddefnyddio deunyddiau neu wrthrych peryglus;
- sicrhau bod disgybl yn gadael ystafell ddosbarth pan fydd y disgybl yn gwrthod yn gyson i ddilyn cyfarwyddyd i wneud hynny;
- atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar wers; neu;
- i atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar ddigwyddiad chwaraeon ysgol neu ymweliad ysgol.

1.9. Dylai'r canllaw helpu ysgolion i ddeall beth mae'r gyfraith yn ei olygu iddynt hwy yn ymarferol, yn ogystal â rhoi cyngor iddynt ar arfer da. Diben y gyfraith a'r canllaw hwn yw diogelu staff a disgyblion, atal difrod neu amhariad difrifol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd camau gweithredu a gymerwyd gan staff yn cael eu herio'n llwyddiannus yn y llysoedd. Felly, cynghorir ysgolion yn gryf i ddilyn y canllaw ond ni ddylid ei drin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Mater i'r llys yw dehongli'r gyfraith.

1.10. Bydd staff yn ymwybodol o'r materion sensitif sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o gyswllt corfforol â disgyblion. Mae'r canllaw hwn hefyd yn cynnig cyngor ar gyswllt corfforol ar wahân i ddefnyddio grym uniongyrchol.

1.11. Dylid ystyried y canllaw yng nghyd-destun ehangach Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol.

1.12. Y prif feysydd sy'n cael eu trafod yn yr adran hon yw:

- Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud
- Arfer effeithiol i ysgolion
- Y defnydd o Ymyriadau Corfforol Cyfyngol ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Ymddygiad Difrifol (sydd wedi'u hanelu'n bennaf at ysgolion arbennig ond sydd hefyd yn berthnasol i ysgolion prif ffrwd sydd â disgyblion o'r fath.)

2. Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud

Mae Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, wedi disodli Adran 550A Deddf Addysg 1996 ac yn galluogi staff ysgolion i ddefnyddio grym sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau er mwyn atal disgybl rhag gwneud, neu barhau i wneud, unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawni unrhyw drosedd (neu, i ddisgybl o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, yr hyn a fyddai'n drosedd i ddisgybl hŷn);
- achosi anaf personol i, neu ddifrod i eiddo, unrhyw berson (yn cynnwys y disgybl ei hun); neu
- peryglu trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, naill ai yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall

Ceir diffiniad o'r staff y mae'r pŵer hwn yn berthnasol iddynt yn adran 95 y Ddeddf. Y rhain yw:

- unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol, ac unrhyw berson arall sydd wedi derbyn awdurdod gan y pennaeth i reoli neu fod yn gyfrifol am ddisgyblion.
- i) mae hyn yn cynnwys staff cymorth sydd â dyletswyddau arferol o oruchwylio disgyblion megis cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu, mentoriaid dysgu a goruchwylwyr amser cinio.
- ii) mae hefyd yn gallu cynnwys pobl y mae'r pennaeth wedi rhoi awdurdod dros dro iddynt reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion megis aelodau o staff cyflogedig nad yw eu swydd yn cynnwys goruchwylio disgyblion fel arfer (er enghraifft staff arlwyo neu staff sy'n gysylltiedig â'r eiddo) a gwirfoddolwyr di-dâl (er enghraifft rhieni sy'n hebrwng disgyblion ar ymweliadau a drefnwyd gan yr ysgol).
- iii) nid yw'n cynnwys swyddogion.

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n defnyddio'r pŵer i ddefnyddio grym roi ystyriaeth briodol hefyd i unrhyw angen addysgol arbennig (AAA) a/neu anabledd a allai fod gan ddisgybl. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae gan ysgolion ddwy ddyletswydd allweddol:

- i beidio â thrin disgybl anabl yn llai ffafriol, oherwydd ei, anabledd, na disgybl heb anabledd;
- i beidio â thrin disgybl anabl yn anffafriol, am reswm sy'n i gysylltiedig â'i anabledd, heb gyfiawnhad;
- i beidio â gweithredu darpariaeth, maen prawf, neu arfer sy'n rhoi, neu fyddai'n rhoi, disgybl anabl o dan anfantais; ac
- i gymryd camau rhesymol i osgoi rhoi disgybl anabl o dan anfantais sylweddol o gymharu â disgybl heb anabledd (a elwir yn ddyletswydd addasiadau rhesymol).

2.1. Gellir defnyddio'r pŵer pan fydd y disgybl (yn cynnwys disgybl o ysgol arall) ar dir yr ysgol neu leoliad arall sydd o dan reolaeth neu ofal cyfreithiol yr aelod o staff (er enghraifft ar ymweliad ysgol).

2.2. Ni cheir unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o pryd y mae'n rhesymol i ddefnyddio grym. Bydd hynny bob amser yn dibynnu ar amgylchiadau penodol achosion unigol. I gael ei ystyried yn gyfreithiol, byddai'n rhaid i'r grym fod yn gymesur â'r canlyniadau y mae'n ceisio eu hosgoi. Dylai graddau'r grym fod y lefel isel sydd ei hangen i gyflawni'r canlyniad a ddymunir. Ni fyddai'n bosibl cyfiawnhau defnyddio grym i atal camymddwyn dibwys. Er enghraifft, efallai y bydd rhedeg mewn coridor prysur gyda phlant bach lle ceir perygl gwirioneddol o'u taro i mewn i'r waliau neu i lawr grisiau yn ddigon difrifol i beidio â chael ei ystyried fel achos dibwys.

2.3. Mae'r pŵer statudol a roddir gan Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn bŵer ychwanegol i bŵer cyfraith gwlad unrhyw ddinesydd mewn argyfwng i ddefnyddio grym rhesymol i amddiffyn eu hunain, i atal person arall rhag cael ei anafu neu gyflawni trosedd. O ran atal anaf neu ddifrod i eiddo, mae'r pŵer statudol yn debyg i'r pŵer cyfraith gwlad, ac eithrio ei fod ond ar gael i bobl sydd wedi'u hawdurdodi i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion.

2.4. O ran atal mathau eraill o droseddau, mae Adran 93 yn darparu eglurhad hollbwysig. Nid yw'n glir o gwbl a yw'r holl fathau o ymddygiad sy'n peryglu disgyblaeth ysgol yn droseddau hefyd ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cynradd o dan oedran cyfrifoldeb troseddol. Felly, mae Adran 93 yn datgan yn glir y gall staff awdurdodedig ddefnyddio grym i atal ymddygiad sy'n peryglu'r gwaith o gynnal disgyblaeth yn yr ysgol p'un a yw'r ymddygiad hwnnw hefyd yn cael ei ystyried yn drosedd ai peidio.

2.5. Gellir defnyddio grym rhesymol hefyd wrth arfer y pŵer statudol, a gyflwynwyd o dan Adran 45 Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006, i chwilio disgyblion am arfau heb eu caniatâd. Byddai'r pŵer chwilio hwn yn berthnasol i benaethiaid a staff sydd wedi'u hawdurdodi ganddynt, pan fydd ganddynt resymau rhesymol dros amau bod gan ddisgybl arf. Gallai'r sawl sy'n chwilio a/neu'r ail berson y mae angen iddynt fod yn bresennol mewn chwiliad ddefnyddio grym rhesymol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori ysgolion yn gryf i beidio â chwilio disgyblion pan fyddant yn disgwyl gwrthwynebiad, ond yn hytrach dylent ffonio'r heddlu (gweler Adran 3 am fanylion pellach).

2.6. **Mae bob amser yn anghyfreithlon defnyddio grym fel cosb.** Y rheswm am hyn yw y byddai'n cael ei gynnwys o fewn y diffiniad o gosb gorfforol, a ddiddymwyd gan Adran 548 Deddf Addysg 1996.

3. Arfer effeithiol i ysgolion

Polisiâu a gweithdrefnau

3.1. Mae'n arfer da i ysgol gael polisi penodol ar y defnydd o rym rhesymol i reoli neu atal disgyblion. Mae hefyd yn arfer da ymgynghori â llywodraethwyr, staff, undebau llafur cydnabyddedig, disgyblion a'r rhai â chyfrifoldeb rhiant ynglŷn â'r polisi ac i'r polisi gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu a rhoi gwybod i'r staff, disgyblion a'r rhieni am hyn naill ai fel rhan o bolisi ymddygiad yr ysgol neu ar wahân. Pan fydd yr awdurdod lleol yn darparu polisi model ar y defnydd o rym, efallai y bydd ysgolion a gynhelir yn benodol yn dymuno ystyried hyn wrth lunio ac adolygu eu polisiâu eu hunain, wrth sicrhau ar yr un pryd eu bod yn adlewyrchu amgylchiadau penodol eu hysgol hwy.

3.2. Oherwydd mai aelodau unigol o staff sy'n meddu ar y pŵer statudol i ddefnyddio grym, ni ddylai bod gan unrhyw ysgol bolisi 'dim cyswllt corfforol' oherwydd byddai hyn yn gwneud i'r staff deimlo eu bod wedi'u hamddifadu o'r pŵer hwnnw neu'n atal eu defnydd ohono.

3.3. Byddai'n synhwyrol i bolisi ysgol ar ddefnyddio grym ddisgrifio'r ddau fath o amgylchiadau y bydd ysgol yn credu bod cyfiawnhad dros ddefnyddio grym i atal disgybl (er enghraifft, er mwyn eu hatal rhag anafu rhywun) a'r mathau hynny o amgylchiadau y bydd ysgol yn credu bod cyfiawnhad dros ddefnyddio grym er mwyn gorfodi disgybl i gydymffurfio â chyfarwyddyd rhesymol (er enghraifft, i adael yr ystafell ddosbarth). Mae angen i bob aelod o staff - awdurdodedig neu anawdurdodedig - ddeall eu pwerau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae angen iddynt wybod beth sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol. Yn yr un modd, dylai pob disgybl fod yn ymwybodol o'r pwerau sydd ar gael i staff yr ysgol, a'r amgylchiadau lle gallant eu defnyddio.

3.4. Dylai polisi ysgol ar ddefnyddio grym fod yn gyson â'i pholisi ymddygiad ond nid o reidrwydd fel rhan ohono. Mae canllaw Llywodraeth Cymru ar hybu polisiâu ymddygiad cadarnhaol ac ymddygiad ysgol ar gael yng Nghylchlythyr 47/2006 Cynnwys a Chefnogi Disgyblion. Dylai hefyd fod yn gyson â pholisiâu'r ysgol ar ddiogelu plant ac iechyd a diogelwch.

3.5. Dylai polisi ysgol ar ddefnyddio grym ddisgrifio enghreifftiau:

- o'r gwahanol ymagweddau y dylid eu defnyddio cyn defnyddio grym;
- o'r amgylchiadau lle bydd yr ysgol yn ystyried bod y defnydd o rym i atal disgybl yn rhesymol (er enghraifft, er mwyn eu hatal rhag anafu rhywun);
- o'r amgylchiadau y bydd ysgol yn credu sy'n cyfiawnhau'r defnydd o rym er mwyn gwneud i ddisgybl gydymffurfio

3.6. Mae **Atodiad 1A** yn awgrymu fframwaith ar gyfer polisi a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion, yn cynnwys rhestr o bynciau y gallai'r polisi eu cwmpasu.

Lleihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen defnyddio grym

3.7. Er na fydd mesurau ataliol bob amser yn gweithio, mae yna nifer o gamau y gall ysgolion eu cymryd i leihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen arfer y pŵer i ddefnyddio grym:

- creu amgylchedd tawel, disgybledig a chefnogol yn yr ysgol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath;
- datblygu cydberthnasau effeithiol rhwng disgyblion a staff sy'n elfen ganolog i ddisgyblaeth dda;
- mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol megis y rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL);
- defnyddio agwedd strwythuredig ar gyfer datblygu staff sy'n helpu staff i ddatblygu sgiliau rheoli ymddygiad cadarnhaol; rheoli gwrthdaro a hefyd i gefnogi ei gilydd yn ystod digwyddiad ac ar ôl digwyddiad. Ceir canllaw pellach yng Nghynllaw Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr 47/2006;
- rheoli digwyddiadau unigol yn effeithiol. Mae'n bwysig cyfathrebu'n dawel gyda'r disgybl, defnyddio geiriau ac iaith y corff nad ydynt yn fygythiol, a sicrhau y gall y disgybl weld ffordd allan o sefyllfa. Gallai strategaethau gynnwys, er enghraifft, mynd gyda'r aelod o staff i ystafell ddistaw, i ffwrdd o wylwyr neu ddisgyblion eraill, er mwyn i'r aelod o staff allu gwrandao ar bryderon; neu i aelod arall o staff penodol sy'n adnabyddus i'r disgybl ymuno â hwy; a
- lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid rhybuddio'r disgybl y gellir defnyddio grym cyn ei ddefnyddio.

Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau

3.8. Mae'r cyngor canlynol yn arbennig o berthnasol i ddisgyblion ag AAA a/neu anabledau:

- Cynnwys y Cydgysylltydd AAA neu aelod o staff arall a enwir a rhieni i ddatblygu polisi ac arfer yr ysgol ar ddefnyddio grym. Bydd hyn yn helpu i

sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i anghenion disgyblion unigol ag AAA a/neu anabledau yn cynnwys disgyblion “bregus”. (Ceir cyngor pellach ar ddisgyblion “bregus” ac asesiadau risg ym mharagraffau 3.16-3.17 ac yn Atodiad 1C).

- Datblygu cynlluniau rheoli ymddygiad ar gyfer disgyblion unigol yr aseswyd eu bod yn wynebu risg uwch o fod angen ymyriadau corfforol cyfyngol mewn ymgynghoriad â'r disgybl a'i rieni neu ei rhieni. Ceir cyngor pellach ar asesiadau risg ym mharagraffau 3.16 a 3.17 ac yn Atodiad 1C. Mae cynlluniau rheoli ymagwedd yn cyflwyno'r technegau y dylid eu defnyddio a'r rhai na ddylid eu defnyddio fel arfer. Dylai unrhyw ddefnydd bwriadedig o ymyrraeth gorfforol gydymffurfio â datganiad disgybl a chael ei gofnodi'n briodol yng nghofnodion yr ysgol.
- I'r graddau y bo'n ymarferol bosibl gwneud hynny, dylai staff sy'n cael cyswllt â disgyblion o'r fath gael eu hysbysu o nodweddion perthnasol yr unigolion hynny, yn arbennig:
 - i) sefyllfaoedd a allai ysgogi ymddygiad anodd, strategaethau cyfyngol a pha dechnegau atal rhag gwaethygu sy'n fwyaf tebygol o weithio;
 - ii) beth sy'n fwyaf tebygol o ysgogi ymateb treisgar, yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am unrhyw ddigwyddiad blaenorol lle bu'n rhaid defnyddio grym; a
 - iii) os bydd angen ymyriad corfforol, unrhyw strategaethau a thechnegau penodol y cytunwyd arnynt gyda'r staff, y rhieni a'r disgybl dan sylw.
- Gallai gwybodaeth gan rieni fod yr un mor ddefnyddiol â gwybodaeth sydd gan yr ysgol. Gallai rhywfaint o'r wybodaeth hon fod yn sensitif. Dylai ysgolion geisio sicrhau caniatâd clir (caniatâd ysgrifenedig fyddai orau) gan y rhiant i hysbysu staff priodol. Fodd bynnag, os bydd caniatâd yn cael ei atal yn afresymol, efallai y gellir rhoi'r wybodaeth i staff sydd ei hangen beth bynnag lle byddai lleihau'r posibilrwydd o fod angen defnyddio grym er budd i'r disgybl dan sylw. Bydd pwysigrwydd darparu gwybodaeth o'r fath yn ffactor mewn penderfyniadau ynglŷn â rhoi awdurdod dros dro i rieni sy'n wirfoddolwyr ac eraill sy'n goruchwyllo disgyblion.
- Dylid galw ar aelodau o staff penodol os bydd digwyddiadau sy'n gysylltiedig â disgyblion penodol yn digwydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu aros iddynt gyrraedd cyn gweithredu os bydd angen gweithredu ar frys. Fodd bynnag, dylid eu cynnwys bob amser yn y camau yn dilyn digwyddiadau. Dylid ystyried hefyd a oes yna amgylchiadau penodol lle bydd angen i staff weithio mewn parau i ddiogelu disgyblion a/neu staff.
- Addysgu disgyblion sy'n wynebu risg sut i gyfathrebu mewn adegau o argyfwng a strategaethau i'w defnyddio mewn argyfwng (megis defnyddio pasbortau cyfathrebu personol ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar i ddangos yr angen i ddefnyddio ardal dawel benodol neu ardal tawelu) a sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r strategaethau hyn.

3.9. Ceir manylion pellach ar weithio â disgyblion ag Anawsterau Ymddygiad Difrifol yn Rhan 4.

Sicrhau bod staff yn gwybod pwy sydd â phŵer statudol i ddefnyddio grym

3.10. Cynghorir y Pennaeth neu uwch aelod o staff dirprwyedig i wneud y canlynol:

- Fel rhan o broses sefydlu, hysbysu'r bobl dan sylw yn benodol o'u cyfrifoldebau mewn cysylltiad â pholisi'r ysgol ar ddefnyddio grym. Dylai egluro bod pob athro a staff sydd wedi'u hawdurdodi gan y pennaeth i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion yn derbyn pŵer statudol yn awtomatig i ddefnyddio grym.
- O ran staff sydd ag awdurdod dros dro, dylai egluro'r amgylchiadau lle bydd staff nad yw eu swyddi fel arfer yn cynnwys goruchwyllo disgyblion, a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda disgyblion, yn derbyn awdurdod i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion ac y bydd ganddynt felly'r pŵer statudol i ddefnyddio grym.
- Cadw cofnod cyfredol o'r bobl sydd ag awdurdod dros dro a sicrhau bod staff ag awdurdod parhaol (h.y. pob aelod o staff sy'n goruchwyllo disgyblion) yn gwybod pwy ydynt. O ystyried y gofyniad ar ysgolion i gynnal cofnod canolog a chyfredol o statws y Swyddfa Cofnodion Troseddol o bob aelod o staff a gwirfoddolwr, efallai y byddant yn dymuno alinio'r ddwy set o gofnodion.

Penderfynu a fyddai defnyddio grym yn briodol

3.11. Dylai'r penderfyniad i ddefnyddio grym ai peidio a pha rym y dylid ei ddefnyddio ddibynnu bob amser ar amgylchiadau pob achos ac – yn hollbwysig yn achos disgyblion ag AAA a/neu anabledau – gwybodaeth am yr unigolyn dan sylw.

3.12. Mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir i weld yw union amgylchiadau digwyddiad yn cyfiawnhau defnyddio grym sylweddol fod yn rhesymol. Fel arfer, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau o'r fath yn gyflym, heb lawer o amser i bwysu a meddwl. Er hynny, mae angen i staff wneud y penderfyniadau cliraf posibl ynglŷn â:

- difrifoldeb y digwyddiad, wedi'i asesu gan effaith yr anaf, difrod neu anrhefn sy'n debygol o ddigwydd pe na fyddai grym yn cael ei ddefnyddio. Os bydd posibilrwydd cryf o anaf, difrod neu anrhefn ddifrifol, y mwyaf tebygol y gellir cyfiawnhau defnyddio grym;
- y tebygolrwydd o gyflawni'r canlyniad a ddymunir drwy ddulliau eraill. Os bydd y tebygolrwydd o gyflawni'r canlyniad a ddymunir drwy ddulliau eraill yn is, bydd yn fwy tebygol y gellir cyfiawnhau defnyddio grym; a
- y risgiau perthynol sy'n gysylltiedig ag ymyriad corfforol o gymharu â defnyddio strategaethau eraill. Po leiaf yw'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymyriad corfforol, y mwyaf tebygol y gellir cyfiawnhau defnyddio grym.

Enghreifftiau o sefyllfaoedd

3.13. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd sy'n galw'n benodol am benderfyniadau o'r math hwn yn cynnwys:

- mae disgybl yn ymosod ar aelod o staff, neu ddisgybl arall;
- mae disgyblion yn ymladd, gan achosi risg anaf iddynt hwy eu hunain neu eraill;
- mae disgybl yn cyflawni, neu ar fin cyflawni, difrod bwriadol i eiddo;
- mae disgybl yn achosi, neu mewn perygl o achosi, anaf neu ddifrod drwy ddamwain, chwarae gwyllt, neu drwy gamddefnyddio deunyddiau neu wrthrych peryglus;
- mae disgybl yn gadael dosbarth neu'n ceisio gadael yr ysgol ar adeg heb ei awdurdodi. Nid yw gwrthod gadael i ddisgybl aros mewn lle penodol yn rheswm unigol digonol i gyfiawnhau defnyddio grym. Byddai'n bosibl cyfiawnhau hyn pan fyddai caniatáu i ddisgybl adael yn:
 - i) achosi risgiau difrifol i ddiogelwch disgyblion (gan roi ystyriaeth i oedran a dealltwriaeth), i ddiogelwch disgyblion neu staff eraill, neu ddifrod i eiddo; neu
 - ii) arwain at ymddygiad sy'n peryglu trefn a disgyblaeth dda, megis amharu ar ddosbarthiadau eraill.
- mae disgybl yn gwrthod yn gyson i ddilyn cyfarwyddyd i adael ystafell ddosbarth;
- mae disgybl yn ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar wers; neu
- mae disgybl yn ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar ddigwyddiad chwaraeon ysgol neu ymweliad ysgol.

3.14. Yn yr enghreifftiau hyn byddai defnyddio grym yn rhesymol (ac felly'n gyfreithlon) pe byddai'n amlwg bod yr ymddygiad yn ddigon peryglus neu drafferthus i alw am ymyriad corfforol o'r math a ddefnyddiwyd ac ni ellir bod wedi delio â'r sefyllfa'n realistig drwy unrhyw ddulliau eraill. Dylid gwneud cofnod o'r digwyddiad cyn gynted â phosibl, pan fo'r digwyddiad yn dal yn hawdd i'w gofio. Gweler paragraffau 3.34 – 3.46 am fanylion pellach.

3.15. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r penderfyniadau hyn ystyried nodweddion penodol y disgybl, yn cynnwys ei oedran neu ei hoedran, dealltwriaeth ac unrhyw AAA neu anabledd y gallai fod ganddo neu ganddi. Byddai hyn yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiad risg a, lle y bo'n briodol, unrhyw strategaethau a thechnegau penodol a nodir yng nghynllun triniaeth gadarnhaol y disgybl.

Asesiadau risg

3.16. Cynghorir timau arwain i asesu amllder a difrifoldeb digwyddiadau sy'n galw am ddefnyddio grym sy'n debygol o ddigwydd yn eu hysgol. Mae patrymau hanesyddol fel arfer yn darparu man cychwyn da. Bydd yr asesiadau hyn yn helpu i

hysbysu penderfyniadau ynglŷn â hyfforddiant staff (gweler paragraffau 3.29 i 3.33 isod).

3.17. Efallai y bydd angen i ysgolion gynnal asesiadau risg unigol hefyd pan fydd yn hysbys y bydd grym yn fwy tebygol o fod yn angenrheidiol er mwyn atal disgwyl penodol, megis disgybl y mae eu AAA a/neu anabledd yn gysylltiedig ag ymddygiad eithafol. Mae asesiad risg unigol hefyd yn hollbwysig i ddisgyblion y mae eu AAA a/neu anabledau yn gysylltiedig â:

- namau cyfathrebu sy'n eu gwneud yn llai ymatebol i gyfathrebu llafar;
- anabledau corfforol a/neu nam ar y synhwyrâu;
- cyflyrau sy'n eu gwneud yn fregus, megis hemoffilia, syndrom esgyrn brau neu epilepsi; neu
- dibyniaeth ar offer megis cadeiriau olwyn, tiwbiau anadlu neu fwydo.

Sefyllfaoedd pan na ddylai staff ymyrryd fel arfer heb gymorth

3.18. Ni ddylai aelod o staff awdurdodedig ymyrryd mewn digwyddiad heb gymorth, oni fydd yn argyfwng. Dylai ysgolion sefydlu systemau cyfathrebu sy'n galluogi aelod o staff i alw am gymorth brys pan fydd angen. Efallai y bydd angen help i ddelio â sefyllfa sy'n cynnwys disgybl hŷn neu ddisgybl sy'n gryfach yn gorfforol, disgybl mawr, neu fwy nac un disgybl neu os bydd yr aelod o staff awdurdodedig yn credu y gallai ef neu hi fod mewn perygl o gael eu hanafu. Yn yr amgylchiadau hyn dylai ef neu hi gymryd camau i symud disgyblion eraill a allai fod mewn perygl a galw am gymorth gan staff awdurdodedig eraill, neu ffonio'r heddlu os bydd angen.

Defnyddio grym

3.19. Cyn defnyddio grym dylai staff, pan fydd yn bosibl, ddweud wrth y disgybl i roi'r gorau i gamymddwyn a chyfathrebu mewn ffordd dawel a phwylllog drwy'r digwyddiad cyfan. Ni ddylai staff weithredu oherwydd dicter neu rwystredigaeth, neu er mwyn cosbi disgybl, a dylai esbonio'n glir y bydd cyswllt corfforol neu ataliaeth yn dod i ben cyn gynted ag y bydd yr angen yn dod i ben.

3.20. Gallai'r mathau o rym a ddefnyddir gynnwys:

- cyswllt corfforol goddefol o ganlyniad i sefyll rhwng disgyblion neu rwystro llwybr disgybl;
- cyswllt corfforol gweithredol megis:
 - i) gafael yn llaw neu fraich disgybl i'w harwain;
 - ii) tywys disgybl i ffwrdd drwy roi llaw yng nghanol y cefn;
 - iii) mewn amgylchiadau mwy eithafol, defnyddio dulliau atal priodol, **sy'n galw am arbenigedd neu hyfforddiant penodol.**

3.21. Pan fydd risg uchel ac uniongyrchol o farwolaeth neu anaf difrifol, gallai unrhyw aelod o staff gyfiawnhau cymryd unrhyw gamau angenrheidiol (sy'n gyson

â'r egwyddor o geisio defnyddio'r grym lleiaf posibl er mwyn cyflawni'r canlyniad a ddymunir). Gallai sefyllfaoedd o'r fath gynnwys atal disgybl rhag rhedeg oddi ar y palmant i ffordd brysur neu atal disgybl rhag taro rhywun â gwrthrych peryglus megis potel wydr neu forthwyl.

3.22. Dylai staff wneud pob ymdrech i osgoi ymddwyn mewn ffordd y gellid disgwyl yn rhesymol i hynny achosi anaf. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol efallai na fydd bob amser yn bosibl osgoi anafu disgybl.

3.23. Dylai staff bob amser osgoi cyffwrdd neu atal disgybl mewn ffordd y gellid ei dehongli fel ymddygiad rhywiol amhriodol.

Defnyddio ystafelloedd ac ardaloedd tawel

3.24. Gellir eu defnyddio er mwyn tawelu sefyllfa a lleihau neu ddiddymu'r angen i ddefnyddio grym rhesymol. Pan fo ymddygiad disgybl yn golygu bod cyfiawnhad dros ei dynnu allan o'r ystafell ddosbarth neu'r sefyllfa, ni ddylai'r disgybl gael ei gloi mewn ystafell, ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol i rwystro niwed i'w hun neu i eraill. Mae'n drosedd i gloi plentyn mewn ystafell ac eithrio mewn argyfwng, er enghraifft, pan fo defnyddio ystafell sydd wedi'i chloi yn gam dros dro tra byddwch yn chwilio am gymorth. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r plentyn fod dan oruchwyliaeth oedolyn bob amser. Ni ddylai rhoi disgyblion mewn ystafell nad ydynt yn gallu ei gadael o'u gwirfodd gael ei ddefnyddio fel cosb o dan unrhyw amgylchiadau.

3.25. Os yw disgybl yn mynd gydag aelod o staff i ystafell dawel i ffwrdd oddi wrth unrhyw ddigwyddiad, rhaid i'r aelod staff aros gyda'r disgybl yn yr ystafell neu'r ardal dawel nes y bydd y disgybl wedi ymdawelu ac yn ymddwyn mewn modd mwy disgybledig. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y byddai'n fwy buddiol i ddisgybl fynd gydag aelod o staff y mae'n ei adnabod yn dda. Unwaith y bydd y disgybl wedi ymdawelu ac yn ddiogel, caiff yr aelod staff adael y disgybl ar ei ben ei hun yn yr ystafell, er na ddylai gael ei adael heb ei fonitro ac ni ddylai'r drws fod dan glo.

3.26. Mae'n rhaid bod digon o olau, gwres a mynedfeydd ac allanfeydd mewn unrhyw ystafell neu ardal dawel, ac ni ddylai fod mewn lle cyfyng a allai achosi i'r disgybl deimlo ei fod mewn trap neu i deimlo'n ofnus, gan gynyddu unrhyw deimladau o bryder, ymosodedd neu drais a oedd, efallai, yn amlwg yn y digwyddiad gwreiddiol.

3.27. Dylai'r defnydd a wneir o ystafelloedd tawel gyd-fynd hefyd â pholisïau'r ysgol ar ddiogelu ac ar iechyd a diogelwch. Rhaid cadw cofnodion priodol ac addas am y defnydd a wneir o ystafelloedd o'r fath ac unrhyw ataliaeth gorfforol a ddefnyddir.

3.28. Mae gan y British Institute of Learning Disabilities (BILD) taflen wybodaeth ddefnyddiol sydd yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng 'amser i anadlu' ac 'arwahaniad' <http://www.bild.org.uk/information/factsheets/>

Hyfforddiant staff

3.29. Fel mathau eraill o ddatblygiad proffesiynol, ysgolion unigol ddylai wneud penderfyniadau ynglŷn â hyfforddiant mewn ymyriadau corfforol yn unol â'u hanghenion a'u hamgylchiadau arbennig hwy. Mae'n arfer da i ysgolion gyflwyno eu hymagwedd tuag at hyfforddiant perthnasol ym mholisi eu hysgol ar ddefnyddio grym. Gall ysgol benderfynu y dylai pob aelod o staff sy'n goruchwyllo disgyblion gael hyfforddiant o'r fath. Fodd bynnag, mae gan unigolion bŵer statudol i ddefnyddio grym yn rhinwedd eu swydd. Felly, ni all polisi ysgol atal athrawon neu aelodau eraill o staff y mae eu swydd yn cynnwys rheoli neu fod yn gyfrifol am ddisgyblion rhag defnyddio'r pŵer hwnnw p'un a ydynt wedi derbyn hyfforddiant ai peidio. Serch hynny, dylai ysgolion egluro i staff y gallai defnyddio grym afresymol neu anaddas arwain at gamau disgyblu.

3.30. Bydd yn rhaid i ysgolion, hefyd, ddyfarnu ar lefel a ffurf yr hyfforddiant y meant yn ei rhoi i'r rhai sydd ag awdurdod dros dro, gan nad ydynt yn gyfrifol am reoli disgyblion fel arfer.

3.31. Fel y nodir isod, bydd gan staff sy'n gweithio'n agos â disgyblion ag AAA a/neu anabledau anghenion hyfforddiant penodol. Bydd asesiadau risg (gweler paragraffau 3.16 a 3.17 uchod) yn helpu i lunio penderfyniadau ar hyfforddiant staff. Byddant hefyd yn llunio'r amgylchiadau lle gall ysgolion roi awdurdod dros dro i staff neu wirfoddolwyr reoli neu fod yn gyfrifol am ddisgyblion.

3.32. Cynghorir ysgolion i sicrhau bod hyfforddiant yn cwmpasu ffyrdd o osgoi neu dawelu sefyllfaoedd lle bydd angen ymyriad corfforol o bosibl yn ogystal â dulliau ymyriad corfforol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff sy'n gweithio'n agos â disgyblion ag AAA a/neu anabledau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad eithafol. Dylai ysgolion sicrhau bod anghenion hyfforddiant y staff hyn yn cael eu nodi a'u diwallu'n briodol.

3.33. Mae nifer o sefydliadau'n cynnig hyfforddiant ar y defnydd o rym corfforol a thechnegau cysylltiedig megis atal rhag gwaethygu. Mae gwybodaeth ar gael am hyn yn www.bild.org.uk. Bydd cyngor ac arweiniad awdurdodau lleol ar hyfforddiant hefyd yn gallu helpu ysgolion, yn arbennig yn y sector a gynhelir, er mwyn sicrhau hyfforddiant priodol sydd wedi'i dargedu'n dda.

Cofnodi ac adrodd digwyddiadau

3.34. Cynghorir ysgolion yn gryf i gadw cofnodion systematig o bob digwyddiad arwyddocaol lle defnyddiwyd grym, yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r ysgol ar ddefnyddio grym a'i gofynion diogelu plant. Diben cofnodi yw sicrhau bod canllawiau polisi'n cael eu dilyn, hysbysu rhieni, hysbysu cynlluniau yn y dyfodol fel rhan o brosesau gwella ysgolion, atal camddealltwriaeth neu gamddehongliad o'r digwyddiad a darparu cofnod ar gyfer unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol.

3.35. Efallai y bydd y cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol i ysgolion wrth benderfynu a yw digwyddiad yn arwyddocaol a bod angen cofnod ysgrifenedig ohono:

- A wnaeth y digwyddiad achosi anaf neu ofid i ddisgybl neu aelod o staff?
- Er nad oedd unrhyw anaf neu ofid amlwg, a oedd y digwyddiad yn ddigon difrifol yn ei rinwedd ei hun i alw am gofnod ysgrifenedig? Byddai unrhyw ddefnydd o ddulliau cyfyngol, er enghraifft, yn cael ei gynnwys yn y categori hwn.
- A oes angen cofnod ysgrifenedig i allu cyfiawnhau'r defnydd o rym? Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo ffin denau rhwng y penderfyniad i ddefnyddio grym ai peidio.
- A oes angen cofnod i helpu i nodi a dadansoddi patrymau o ran ymddygiad staff neu anghenion hyfforddiant staff?
- A oedd asiantaethau eraill yn gysylltiedig â'r digwyddiad, er enghraifft yr heddlu?

3.36. Os yw'r ateb yn gadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, fe'ch cynghorir yn gryf i wneud cofnod ysgrifenedig. Gall cofnodion o'r fath ddarparu tystiolaeth o benderfyniadau amddiffynadwy rhag ofn y gwneir cwyn neu y cynhelir ymchwiliad yn ddiweddarach. Mae'n bosibl na ellir cofnodi pob manylyn am ddigwyddiad os nad yw'n hysbys ar bwy y defnyddiwyd grym, er enghraifft pan fydd aelod o staff wedi gorfod gwahanu nifer o ddisgyblion sy'n amgylchynu ymladdfa yn frysiog. Efallai y bydd yr aelod o staff (yn ddealladwy) yn ffocysu ac yn cofio pwy oedd y disgyblion a oedd yn ymladd ac nid y gwylwyr unigol a oedd wedi'u symud i'r ochr er mwyn eu galluogi i gyrraedd y rhai a oedd yn ymladd. Gallai fod yn ddefnyddiol i staff ofyn am gyngor uwch gydweithiwr neu gynrychiolydd eu cymdeithas broffesiynol wrth ysgrifennu adroddiad.

3.37. Efallai y bydd y model o ffurflen gofnodi yn Atodiad 1B yn ddefnyddiol i ysgolion. Mae'r ffurflen hon yn nodi'r mathau o wybodaeth y dylid ei chofnodi.

3.38. Yr aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â digwyddiad sydd fel arfer yn y sefyllfa orau i lunio'r cofnod. Byddai'n arfer da i aelod arall o staff sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu i fwrw golwg dros y cofnod a dylai'r ysgol roi copi o'r fersiwn terfynol i'r aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Gallai hyfforddiant staff ddarparu arfer da ar gwblhau cofnodion o ddigwyddiadau.

3.39. Dylai pob fersiwn gwahanol a roddir o'r un digwyddiad gael eu cofnodi. Nid yw bob amser yn ddoeth rhoi copi o'r cofnod o'r digwyddiad i'r rhieni yn ôl yr arfer, ond dylid rhoi gwybod i'r rhieni pryd a lle y digwyddodd y digwyddiad, pa aelodau o staff a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r digwyddiad (gan gelu enwau pan fydd angen), pam eu bod wedi penderfynu bod angen defnyddio grym, pa rym a ddefnyddiwyd, a oedd yna unrhyw anafiadau a pha gamau dilynol a gymerwyd (cymorth a/neu ddisgyblu) mewn cysylltiad â'u plentyn. Byddai'n ddoeth bod polisi'r ysgol ar wneud cofnod yn dilyn digwyddiadau o'r fath yn cael ei gynnwys yn ei pholisi ar ddefnyddio grym a dylid hysbysu aelodau o staff, rhieni a disgyblion at hyn, os na fydd y personau yn ymwybodol o'r polisi.

3.40. Mae'r cofnod yn debygol o lunio rhan o gofnod addysgol y disgybl ac mae'n gofnod o wybodaeth sy'n cael ei brosesu (ei sicrhau, ei gofnodi a'i gadw) gan neu ar ran Corff Llywodraethu'r ysgol (neu athro yn yr ysgol, ac eithrio ar gyfer defnydd personol), mae'n ymwneud â'r disgybl, ac roedd yn deillio gan athro neu cafodd ei gyflenwi gan athro wedi'i gyflogi gan y Corff Llywodraethu neu'r awdurdod lleol.

3.41. Hyd yn oed os na chafodd copi o'r cofnod o'r digwyddiad ei ddarparu gan yr ysgol fel y crybwyllwyd uchod, byddai gan y rhiant hawl i weld y cofnod addysgol am ddim, o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn cais ysgrifenedig y rhiant. Os bydd rhiant yn gwneud cais ysgrifenedig am gopi o'r cofnod mae'n rhaid darparu hwn, hefyd o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn y cais.

3.42. Pan fydd ysgolion yn cydymffurfio â chais i weld neu i dderbyn copi o gofnod addysgol disgybl mae yna rai mathau o wybodaeth na ddylid eu datgelu. Mae hyn yn unrhyw wybodaeth na ellir ei rhoi'n gyfreithiol iddo/iddi o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, neu na fyddai ganddo/ganddi hawl i'w chael o dan y Ddeddf neu yn rhinwedd unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 30(2) neu adran 38(1) y ddeddf honno. Mae manylion pellach ar y data sydd mewn cofnodion addysgol y gellir eu datgelu yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ar Gofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion, Cylchlythyr 18/2006. Wrth gofnodi digwyddiadau o'r fath, dylai staff gofio, os bydd y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo'n ddiweddarach i'r heddlu, y gallai gael ei chynnwys mewn datgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Dylai ysgolion gadw cofnodion o ddigwyddiadau o'r fath nes y bydd yr aelod o staff dan sylw wedi cyrraedd oedran ymddeol arferol neu am 10 mlynedd o ddyddiad yr honiad os bydd hynny'n hwy.

3.43. Dylid hysbysu rhieni bob amser ar ôl unrhyw ddigwyddiad cofnodadwy. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'n ddoeth ffonio rhieni cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad cyn cadarnhau manylion yn ysgrifenedig. Mae hefyd yn arfer da i rieni dderbyn copi o bolisi'r ysgol ar ddefnyddio grym a gwybodaeth ar gymorth yn dilyn digwyddiadau.

3.44. Dylid cofnodi pob anaf yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Dylai'r ysgol gymryd camau i adrodd anafiadau perthnasol i staff neu ddisgyblion neu i Ganolfan Gyswllt Digwyddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch www.hse.gov.uk/riddor/index.htm.

3.45. Mae'n arfer da i lywodraethwyr fonitro digwyddiadau pan fydd grym wedi'i ddefnyddio. Mae gan bennaethiaid rôl bwysig i'w chwarae wrth roi gwybod i'r Corff Llywodraethu am ddigwyddiadau o'r fath.

3.46. Efallai y bydd aelodau o staff y mae disgybl wedi ymosod arnynt yn dymuno ystyried hysbysu'r heddlu.

Cymorth ar ôl digwyddiadau

3.47. Gall digwyddiadau difrifol sy'n galw am ddefnyddio grym fod yn annifyr i bawb dan sylw a gall arwain at anafiadau i'r disgybl neu i'r staff. Dylid cymryd camau ar unwaith i roi cymorth cyntaf i unrhyw anafiadau a chael gafael ar help meddygol ar

gyfer unrhyw anafiadau sy'n fwy difrifol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod staff a disgyblion yn derbyn cymorth emosiynol.

3.48. Gellir defnyddio'r llythyr at rieni yn eu hysbysu ynglŷn â'r defnydd o rym hefyd i'w cynnwys mewn trafodaeth am y digwyddiad a chyflwyno'r gweithredoedd a'r cymorth dilynol. Mae'n arfer da i rieni fod yn rhan o'r broses o gytuno ar drefniadau cymorth priodol. Ar gyfer rhieni disgyblion y mae eu hymddygiad yn gysylltiedig ag AAA a/neu anabledau, byddai'n ddoeth cytuno ar gynllun ymddygiad unigol. Byddai cynlluniau o'r fath yn cynnwys strategaethau i atal ymddygiad o'r fath rhag digwydd eto a delio ag unrhyw ymddygiad o'r fath eto a allai arwain at ddefnyddio grym.

3.49. Cyngorir ysgolion hefyd i:

- penderfynu a oes angen i bartneriaid aml-asiantaeth gymryd rhan ac, os felly, pa bartneriaid. Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau plant awdurdodau lleol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed neu'r Tîm Troseddau Ieuenctid (os yw'r plentyn eisoes yn cael eu goruchwylio ganddynt neu os ydynt wedi'u nodi gan y TTI fel person sydd mewn perygl o arddangos ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol);
- pan fydd y disgybl yn gyfrifol, dylech eu dwyn i gyfrif fel ei fod ef neu ei bod hi'n cydnabod ac yn gwneud iawn am y niwed a achoswyd neu a allai fod wedi'i achosi. Yn ogystal, i gosbi'r plentyn, gallai hyn roi'r cyfle iddynt adfer y cydberthnasau gyda'r staff a'r disgyblion yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad a/neu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Mewn rhai achosion, gall digwyddiad arwain at benderfyniad i wahardd disgybl. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i benaethiaid ystyried canllaw Llywodraeth Cymru ar Wahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, Dogfen ganllaw 081/2012;
- helpu'r disgybl a'r staff i ddatblygu strategaethau er mwyn osgoi argyfyngau o'r fath yn y dyfodol a rhoi gwybod i aelodau o staff perthnasol am y strategaethau hyn a'u rolau hwy;
- sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymwybodol o weithdrefnau cwyno;
- sicrhau bod staff a disgyblion yr effeithir arnynt gan ddigwyddiad yn derbyn cymorth parhaus am ba bynnag hyd y bydd ei angen arnynt mewn cysylltiad â:
 - i) canlyniadau corfforol;
 - ii) cymorth i ddelio ag unrhyw straen emosiynol neu golli hyder; a
 - iii) cyfle i ddadansoddi, adlewyrchu a dysgu o'r digwyddiad.

Ymdrin â chwynion a chyhuddiadau

3.50. Byddai gan rieni a disgyblion hawl i gwyno am gamau gweithredu a gymerwyd gan staff ysgol. Gallai hyn gynnwys defnyddio grym. Mae angen i ysgolion esbonio hynny'n glir. Os gwneir cyhuddiad penodol o gamdriniaeth yn erbyn aelod o staff yna mae angen i'r ysgol ddilyn y canllaw a nodir yn nhri llythyr Llywodraeth Cymru ar y gwasanaeth ymchwilio annibynnol, dyddiedig 9 Tachwedd

2006, a 30 Mawrth a 31 Awst 2007. Hefyd, y canllaw yng Nghylchlythyr 45/2004 Llywodraeth Cymru – ‘Gweithdrefnau Disgyblaeth Staff mewn Ysgolion’. Dylid delio â chwynion eraill o dan weithdrefn cwynion yr ysgol sydd wedi’i chyflwyno fel arfer ym mhrosbectws cyhoeddiedig yr ysgol neu ar ei gwefan. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dwy ddogfen ganllaw i ysgolion ar ddelio â chwynion. Cylchlythyr 03/2004 ‘Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion’ a Chylchlythyr 39/2006 ‘Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ynglŷn â Gweithdrefnau Cwyno yn ymwneud â Disgyblion’.

3.51. Mewn amgylchiadau o’r fath y Pennaeth ddylai ymateb i’r gwyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau’r ysgol, oni wnaed y gŵyn yn erbyn y Pennaeth ei hun. Gall rhieni ddewis apelio yn erbyn ymateb y Pennaeth. Gellir galw panel o lywodraethwyr ynghyd ar y pwynt hwn.

3.52. Dylai cyfranogiad llawn y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn dilyn y digwyddiad leihau’r tebygolrwydd o gŵyn am y defnydd o rym ond ni fydd yn atal pob cwyn neu gyhuddiad. Gall cyhuddiadau gael eu gwneud o ffynonellau amrywiol, ac nid dim ond gan y rhieni neu’r plant dan sylw.

3.53. Gallai anghydfod arwain at gyhuddiad yn erbyn aelod o staff, a wneir i’r ysgol, asiantaethau eraill neu hyd yn oed i’r heddlu. Dylid delio â’r rhain yn unol â’r polisi a’r weithdrefn gytûn ar gyfer delio â chyhuddiadau yn erbyn staff. Mae canllaw ar gael i ysgolion ar ddiogelu plant ac ar ddelio â chyhuddiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill yn llythyrau a chylchlythyrau Llywodraeth Cymru sydd wedi’u rhestru ym mharagraff 3.43 uchod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Canllaw yng Nghylchlythyr 05/2008 – Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002.

3.54. Bydd polisi’r ysgol ar ymyriad corfforol a’r graddau y mae wedi’i ddilyn yn sail i unrhyw ymchwiliad o’r fath. Gellir ymchwilio i unrhyw gwynion o’r fath o dan weithdrefn ddisgyblu’r ysgol.

Cyswllt corfforol â disgyblion mewn amgylchiadau eraill

3.55. Mae yna achlysuron pan fydd cyswllt corfforol â disgybl yn briodol neu’n angenrheidiol ar wahân i’r rhai sydd wedi’u cynnwys yn Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Efallai y bydd angen rhywfaint o gyswllt corfforol i arddangos ymarferion neu dechnegau yn ystod gwersi Addysg Gorfforol, hyfforddiant chwaraeon neu CDT, neu os bydd yn rhaid i aelod o staff roi cymorth cyntaf. Efallai y bydd angen i athrawon ddarparu ysgogiadau neu help corfforol i blant ifanc a’r rhai ag AAA. Gallai cyffwrdd fod yn briodol hefyd pan fydd disgybl yn cael ei longyfarch neu ei ganmol, pan fydd y disgybl yn gofidio ac mae angen eu cysuro. Bydd athrawon yn defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain pan fyddant yn credu bod angen y math hwn o gymorth ar ddisgybl.

3.56. Efallai na fydd rhai disgyblion eisiau i unrhyw un gyffwrdd â hwy. Er enghraifft, gallai rhai disgyblion fod yn sensitif iawn i gyswllt corfforol oherwydd eu diwylliant diwylliannol neu am eu bod wedi’u cam-drin. Mae’n bwysig bod staff a allai ddod i gysylltiad â’r disgyblion neu’r grwpiau o ddisgyblion hyn wedi derbyn y wybodaeth berthnasol a bod gan yr ysgol system o’u hysbysu. Yn ogystal, bydd angen i’r ysgol

ddatblygu arfer cyffredin clir tuag at grwpiau o ddisgyblion a digwyddiadau penodol. Dylid mabwysiadu ymagwedd gyffredin pan fydd y staff a disgyblion o rywiau gwahanol. Mae cyswllt corfforol gyda disgyblion yn fwy agored i'w gwestiynu wrth i ddisgyblion gyrraedd a mynd drwy'r glasoed, a dylai staff hefyd gofio y gall cyswllt corfforol diniwed a da ei fwriad hyd yn oed gael ei gamddehongli weithiau.

4. Y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiad difrifol

Cyflwyniad

4.1. Bwriedir i'r canllaw yn y rhan hon ddarparu cyngor clir ac ymarferol i ALI ac ysgolion ar lunio polisiau ar y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiad difrifol. Ar y cyfan, mae'r canllaw wedi'i anelu'n bennaf at ysgolion arbennig ond gallai fod yn ddefnyddiol i ysgolion prif ffrwd sydd â disgyblion o'r fath. Mae'r canllaw wedi'i rannu'n dair prif ran:

- Canllawiau polisi model ar gyfer awdurdodau lleol
- Canllawiau polisi model ar gyfer ysgolion arbennig
- Cyngor ar asesiadau risg a phrofforma awgrymedig ar gyfer asesiad risg.

4.2. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn i gynorthwyo ALI ac ysgolion arbennig i ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd pan fydd rheoli ymddygiad disgybl yn galw am y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol. Cynlluniwyd y canllawiau ar gyfer polisiau model i fod yn ddefnyddiol ond ni fwriedir iddynt gael eu dilyn yn gaeth. Yn hytrach, fe'u cynlluniwyd i ddarparu strwythur cyffredinol y gallai polisiau gael eu seilio arno ac amlygu rhai cwestiynau a materion i'w harchwilio neu eu hesbonio. Efallai y bydd yna gwestiynau ac ystyriaethau eraill yn unol ag amgylchiadau lleol.

4.3. Mae asesu a rheoli risg yn rhan hollbwysig o'r broses o benderfynu a oes angen defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol ai peidio a sicrhau ei bod yn rhesymol ac yn gymesur i'r amgylchiadau. Pan fydd yn hysbys bod disgybl yn debygol o gyflwyno anawsterau ymddygiad difrifol, bydd asesiad risg ffurfiol yn cynorthwyo staff i farnu manteision a risgiau unrhyw ymyrraeth arfaethedig i'r staff, y disgybl dan sylw ac eraill. Mae'r adran hon yn cynnig fformat ar gyfer profforma asesu risg. Datblygwyd y deunydd hwn mewn ymgynghoriad ag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill. Er na fwriedir iddo gynnwys pob math o ymddygiad eithriadol ym mhob lleoliad, efallai y bydd ALI yn dymuno cyflwyno'r egwyddorion yn y canllaw hwn i ysgolion prif ffrwd yn eu hardaloedd.

Canllawiau polisi model ar gyfer awdurdodau lleol

4.4. Cynlluniwyd y canllawiau canlynol i helpu ALI i lunio polisiau pan na fyddant eisoes yn bodoli, neu adolygu polisiau sy'n bodoli eisoes. Dylai polisi ALI ar ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol adlewyrchu ethos o barch, gofal a diogelwch mewn ysgolion. Dylid ei gynllunio i:

- darparu, gyda chanllaw, fframwaith lle gall ysgolion ddatblygu eu polisiau eu hunain;
- hybu dull gweithredu clir, gyson a chydgysylltiedig ar draws gwahanol ysgolion a, lle y bo'n briodol, gydag asiantaethau eraill;
- llunio sail ar gyfer monitro a gweithredu polisiau mewn ysgolion; a

- darparu cyngor i ysgolion ar sut i fonitro a gwerthuso eu defnydd eu hunain o ymyriadau corfforol cyfyngol er mwyn gwella arfer yn lleol ac ar draws yr awdurdod.

Creu polisi

4.5. Mae'n bwysig bod polisi'r ALI ar y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag ysgolion, asiantaethau eraill a chyrrff proffesiynol yn cynnwys byrddau diogelu plant lleol. Dylai'r ALI esbonio'n glir y graddau y mae ei bolisi ei hun yn adlewyrchu cydweithrediad o fewn yr awdurdod lleol a gydag asiantaethau eraill. Bydd lefel uwch o Po gydweithredu'n golygu ymdeimlad uwch o gydberchenogaeth a diben cyffredin. Dylid nodi'n glir ym mh Polisi'r ALI y disgwyliad y dylai'r defnydd o ymyriad corfforol mewn ysgolion fod yn **rhesymol** ac yn **gymesur** yn yr amgylchiadau.

4.6. Dylai polisi'r ALI nodi un neu fwy o bwyntiau cyswllt a enwir a fydd yn gallu cynnig cyngor a gwybodaeth i ysgolion ar ymyriad corfforol, ar sail arferol ac mewn achos o ddigwyddiadau/argyfyngau penodol.

Disgwyliadau ysgolion

4.7. Dylai polisi'r ALI esbonio'n glir y materion a'r pynciau y byddai'n hoffi eu gweld yn cael eu cynnwys gan ysgolion drwy wneud darpariaethau ar gyfer disgyblion ag ymddygiad eithafol. Gallai'r rhain gynnwys:

- enw'r person(au) sy'n gyfrifol am weithredu polisi ar ymyriadau corfforol cyfyngol a monitro a chydgyssylltu eu defnydd;
- y cydbwysedd sydd ei angen rhwng anghenion a hawliau disgyblion ac anghenion a chyfrifoldebau ysgolion tuag at staff;
- y mesurau i'w rhoi ar waith er mwyn sicrhau, pan fydd angen defnyddio ymyriad corfforol, ei bod yn rhesymol ac yn gymesur i'r amgylchiadau;
- perthnasedd deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, yn cynnwys canllaw ar godi a chario a lleihau trais mewn cysylltiad â staff, disgyblion ac ymwelwyr;
- y ffordd y dylai ysgolion integreiddio polisiâu ar ddefnyddio ymyriad corfforol gyda pholisiâu ar agweddau mwy cyffredinol ar wella ymddygiad / ymagwedd ysgol gyfan o wella ymddygiad;
- sut y dylai ysgolion gyfathrebu â rhieni/gofalwyr a disgyblion ynglŷn â'u polisiâu ar y defnydd o ymyriad corfforol; ac
- y gweithdrefnau y mae'r ALI yn disgwyl i'r ysgolion eu dilyn wrth gynllunio, gweithredu, monitro, adolygu a diwygio eu polisiâu eu hunain.

Materion i'r ALI fynd i'r afael â hwy

- Sut y bydd polisi'r ALI yn cael ei gyflwyno a'i ddosbarthu i ysgolion ac asiantaethau perthnasol?

- Pa weithdrefnau y dylai ysgolion eu dilyn wrth gofnodi digwyddiadau? Bydd ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod yn ddymunol a bydd yn cynorthwyo hyfforddiant.
- Pa lwybrau y dylai ysgolion eu dilyn wrth roi gwybod i'r ALI am ddigwyddiadau?
- A yw ysgolion yn gwybod ym mha amgylchiadau y dylent roi gwybod am ddigwyddiadau?
- Sicrhau bod gweithdrefnau adrodd a chofnodi ar gyfer ysgolion yn syml eu natur ac yn cael eu cadw ar lefel y gellir ei rheoli.
- Sut y dylai ALI ymateb i bolisiâu ac arfer ysgolion sy'n wahanol iawn i bolisi'r ALI ei hun?
- Sut y caiff plant heriol eu rheoli y tu allan i'r ysgol, er enghraifft ar drafnidiaeth yr ysgol.

Cefnogi'r polisi

4.8. Mae'n bwysig bod strwythurau'n bodoli i sicrhau ysgolion nad ydynt yn delio â disgyblion ag ymddygiad heriol iawn a sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus ar eu pen eu hunain. Yn ogystal â helpu ysgolion i greu eu polisiâu eu hunain yng nghydestun polisi'r ALI, gall yr ALI gynnig help ymarferol mewn nifer o feysydd.

Monitro'r gwaith o weithredu polisiâu a'u heffaith ar arfer

4.9. Heb osod beichiau gweinyddol gormodol ar ysgolion, mae'n bwysig bod ALI yn casglu gwybodaeth amrywiol er mwyn gallu adnabod materion a thueddiadau, gwerthuso effeithiolrwydd eu hymagwedd tuag at y defnydd o ymyriad corfforol mewn ysgolion arbennig, ac effeithiolrwydd y polisiâu a fabwysiadwyd gan ysgolion unigol. Gallai hyn gynnwys:

- sut mae ysgolion yn rhoi eu polisiâu ar waith a phwy sy'n cydgysylltu, yn monitro ac yn gwerthuso'r broses;
- y graddau y mae polisiâu ysgolion yn gyson â'r diwylliant a'r arferion y mae'r ALI yn dymuno iddynt eu cyflawni tra'n caniatáu ar gyfer gwahaniaethau sy'n adlewyrchu anghenion unigol ysgolion (ac sydd felly'n cynorthwyo perchenogaeth);
- y graddau y mae polisi'r ALI a pholisi'r ysgol wedi'u rhannu â darparwyr eraill, a chysondeb polisiâu ar y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol sy'n cael eu defnyddio gan asiantaethau eraill; a
- beth yw rôl llywodraethwyr yn y gwaith o werthuso ac adolygu polisiâu a gweithdrefnau ysgolion.

Materion i'r ALI fynd i'r afael â hwy

- Pa help fydd ar gael i ysgolion i sicrhau bod polisiâu'n effeithiol, e.e. a fydd yr ALI yn darparu cyngor a chymorth i ysgolion yn dilyn digwyddiad a oedd yn cynnwys defnyddio grym?

- Pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu ar hyd a lled yr awdurdod?
- Pa hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sy'n cael eu darparu i staff yr ysgol ac i weithwyr yr ALI i ddelio â digwyddiadau sy'n galw am ymyriad corfforol a/neu eu canlyniadau? Sut mae anghenion o'r fath yn cael eu nodi?
- Beth yw'r ffyrdd mwyaf priodol o gyflwyno rhieni/gofalwyr a disgyblion i bolisïau newydd, neu i fersiynau diwygiedig o bolisïau presennol. Gallai hyn ddigwydd pan fydd disgybl yn dechrau yn yr ysgol neu ar sail barhaus yn ystod lleoliad.
- Yn fwy cyffredinol, pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau cefnogaeth weithredol rhieni/gofalwyr i bolisi'r ALI a'r polisïau sydd wedi'u mabwysiadu gan ysgolion unigol? A all gwasanaethau partneriaeth rhieni helpu gyda hyn?
- I ba raddau y ceir ymagwedd gydgyssylltiedig tuag at hyfforddi staff ar y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol ar hyd a lled ardal yr ALI a sut mae ysgolion yn llwyddo i ymateb i gwynion.
- Pa feini prawf y dylai ysgolion eu defnyddio wrth werthuso eu polisïau? A fyddai'n ddefnyddiol i ysgolion gael meini prawf ar gyfer yr awdurdod cyfan?
- Pa asiantaethau fyddai'n gweithio gydag ysgolion i adolygu a gwerthuso polisïau ac arfer, er enghraifft y Bwrdd Diogelu Plant Lleol, grwpiau partneriaeth rhieni ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol?
- A oes cyfleoedd i rannu arfer da, er enghraifft, drwy eu cyflwyno i ysgolion eraill, annibynnol a'r rhai nad ydynt yn cael eu cynnal, yn ogystal ag ysgolion mewn ardaloedd cyfagos?
- Yn yr un modd, a oes cyfle i ALI mewn ardaloedd cyfagos i ddatblygu ymagweddau cyffredin tuag at werthuso, rhannu profiadau a chydweithio o bosibl, er enghraifft ar hyfforddiant?
- Os gwneir newidiadau i bolisi'r ALI, beth yw'r goblygiadau i ysgolion?
- Pa ddulliau cysylltu sydd gan ysgolion i roi gwybod i ALI ynglŷn â phroblemau a brofwyd yn eu defnydd o ymyriad corfforol?
- Ym mha ffordd y mae ysgolion yn cael eu cefnogi pan fydd trafodaethau rhwng ysgol unigol ac ALI yn cyfeirio at yr angen am welliannau?

Canllawiau polisi model ar gyfer ysgolion arbennig

4.10. Cynlluniwyd y canllawiau hyn i helpu ysgolion arbennig i lunio polisïau sy'n cwmpasu'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol gyda disgyblion ag anawsterau ymddygiad difrifol. Dylai polisi ar ymyriadau corfforol cyfyngol fod yn elfen sylfaenol ond cynnil o bolisi rheoli ymddygiad cyffredinol yr ysgol. Argymhellir y dylai polisi gael ei drefnu'n adrannau sy'n cwmpasu'r canlynol:

- Cyflwyniad;

- disgwyliadau ysgolion;
- rheoli ymddygiad yn gadarnhaol;
- asesu risg a chynllunio ar gyfer defnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol;
- defnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol a sefyllfaoedd annisgwyl ac argyfyngau;
- cymorth yn dilyn digwyddiadau;
- adrodd a chofnodi'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol;
- monitro'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol;
- ymateb i gwynion; a
- hyfforddi staff.

4.11. Caiff pob un o'r rhain eu hystyried yn eu tro yn yr adrannau isod.

4.12. Mae pob adran yn cyfeirio at arfer da ac yn tynnu sylw at y materion sydd angen eu trafod. Rhagwelir y bydd y canllaw'n ddefnyddiol i ysgolion wrth archwilio arferion a gweithdrefnau presennol yr ysgol, a datblygu polisi sy'n addas i amgylchiadau lleol. Dylai fod yn bosibl defnyddio geiriad o'r canllawiau hyn ar gyfer polisiau ysgol (drwy, er enghraifft, newid "dylai'r ysgol" i "bydd yr ysgol").

4.13. Mewn ysgolion arbennig bydd plant ag anawsterau ymddygiad difrifol sy'n cyflwyno ymddygiad a allai alw am y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol er mwyn atal anaf, difrod i eiddo, neu ddirywiad mewn disgyblaeth. Mae Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn esbonio'r sefyllfa ynglŷn â'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol gan athrawon ac eraill sydd wedi'u hawdurdodi gan y Pennaeth i reoli neu atal disgyblion. Atgoffir athrawon a staff awdurdodedig eraill yn yr ysgol bod yn rhaid i'r defnydd o rym fod yn rhesymol a'i fod yn cydymffurfio â:

- Polisiau'r awdurdod lleol.
- Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.
- Polisiau disgyblaeth ac ymddygiad ysgolion.

Disgwyliadau ysgolion

4.14. Dylid ystyried y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol bob amser yng nghydestun ehangach mesurau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu a chynnal cydberthnasau da gyda phlant a defnyddio dulliau tynnu sylw, tawelu a thrafod er mwyn ymateb i sefyllfaoedd anodd. Mae'r defnydd o rym corfforol sy'n ddiangen, yn ormodol neu'n gosbol yn annerbyniol. Dylid delio â methiant i gydymffurfio â'r egwyddor hon, wrth ystyried neu ddefnyddio grym corfforol, o dan weithdrefnau disgyblu'r ysgol.

Materion i'r ysgol fynd i'r afael â hwy

- Pa aelodau o staff eraill ar wahân i athrawon fydd yn derbyn awdurdod i ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol yn eich ysgol?

- Pa broses a ddefnyddir i ddewis ac awdurdodi staff i ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol yn eich ysgol?
- Ym mha sefyllfaoedd fyddai'r ysgol yn ystyried ei bod yn briodol i athrawon a staff awdurdodedig eraill yn yr ysgol ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol?
- Pa fath o gamau gweithredu fyddai'n cael eu hystyried yn ymyriad corfforol rhesymol yn eich ysgol?
- Pa fath o gamau gweithredu sy'n cynnwys defnyddio ymyriad corfforol fyddai'n cael eu barnu fel camau diangen, gormodol neu gosbol yn eich ysgol?
- Pa gamau gweithredu fydd yn cael eu cymryd os bydd staff yn methu â chydymffurfio â'r polisi hwn?

Rheoli ymddygiad yn gadarnhaol

4.15. Dylai pob aelod o staff ddefnyddio ymagwedd gadarnhaol i wella ymddygiad er mwyn gwobrwyo ymdrech a dyfalbarhad, ac er mwyn magu hunan-fri. Dylai'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n adnabod y plentyn er mwyn helpu'r rhai sy'n gysylltiedig â hyn:

- i ganfod pam mae'r plentyn hwn yn ymddwyn yn y ffordd hon;
- i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad y plentyn hwn; ac
- i nodi arwyddion rhybuddiol cynnar sy'n dangos bod mathau penodol o ymddygiad yn datblygu.

4.16. Bydd yr ymagwedd hon yn helpu i sicrhau mai ymyrraeth gynnar a chyfyngol yw'r norm. Dylai leihau'r achosion o ymddygiad eithafol a gwneud yn siŵr mai anaml iawn y bydd angen defnyddio grym corfforol.

4.17. Dylai staff ysgol gyfeirio at bolisi ymddygiad yr ysgol wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli ymddygiad. Dylai pob cynllun rheoli ymddygiad gael eu cadarnhau'n ffurfiol cyn eu gweithredu yn yr ysgol. Dylid cofnodi cynlluniau'n ffurfiol yn unol â gweithdrefnau'r ysgol a nodi'r camau gweithredu a gymerir i:

- diwallu anghenion disgybl;
- annog y disgybl i wneud dewisiadau cadarnhaol a datblygu hunanreolaeth;
- cefnogi'r disgybl mewn sefyllfaoedd anodd; a
- rheoli argyfyngau'n ddiogel os a phryd y byddant yn digwydd.

Asesu risg a chynllunio i ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol

4.18. Dylai ysgolion gydnabod bod rhai plant yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i ystyried y defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol fel rhan o gynllun rheoli ymddygiad. Dylid cynnal asesiad risg ffurfiol ar bob math o ymddygiad

sy'n galw am ddefnydd o ymyriad corfforol a nodwyd: gweler para 4.28. Mae'n rhaid i'r strategaeth rheoli risg ddilynol fod yn gydnaws ag ymagwedd rheoli risg yn gadarnhaol.

Materion i'r ysgolion fynd i'r afael â hwy

- Sut y bydd yr ysgol yn cynnwys rhieni ac eraill sy'n adnabod y plentyn yn y broses o ddatblygu cynlluniau rheoli ymddygiad?
- Pa broses sy'n cael ei defnyddio i gytuno a chadarnhau'r cynlluniau rheoli ymddygiad i'w defnyddio yn yr ysgol?
- Sut y bydd cynlluniau rheoli ymddygiad yn cael eu cofnodi?

4.19. Mae'n rhaid gallu dangos yn glir bod unrhyw ymyrraeth yn gydnaws â datganiad y disgybl a'i gynllun/chynllun addysg unigol. Dylid cofnodi hyn hefyd yn briodol yng nghofnodion yr ysgol. Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng cyswllt neu gyffyrddiad corfforol, wedi'i ddefnyddio'n briodol mewn sefyllfaoedd bob dydd i gefnogi, annog, arwain neu gysuro disgyblion y mae eu hymddygiad yn cyflwyno risg glir o anaf.

4.20. Mae'n rhaid asesu technegau a dulliau ar gyfer rheoli ac atal disgyblion gan ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel, yn addas ac yn briodol i'w defnyddio gyda'r disgybl penodol. Dylid cytuno arnynt mewn partneriaeth â'r disgybl, ei rieni/rhieni (neu'r rhai â chyfrifoldeb rhiant) ac asiantaethau statudol eraill sy'n gweithio gyda'r disgybl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fydd plant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, mewn gofal seibiant, neu'n derbyn gofal gan eraill sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol er mwyn sicrhau bod ymagwedd gyson ar gyfer defnyddio grym yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Os bydd anghydfod, neu bryderon ynglŷn â'r dulliau sy'n cael eu hystyried, dylid cytuno ar strategaeth ysgol dros dro a chyfeirio'r mater i'r ALL. Os bydd angen, gellir cynnig dyfarniad gan swyddog annibynnol a enwebwyd gan y Byrddau Diogelu Plant Lleol.

Materion i'r ysgolion fynd i'r afael â hwy

- Pa fathau o ymddygiad fyddai'r ysgol yn credu y byddai angen ystyried defnydd bwriadedig o ymyriad corfforol?
- Pa gamau gweithredu mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i asesu a rheoli'r risgiau?
- Pa gamau mae'r ysgol yn eu cymryd i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n dod i gyswllt â disgyblion a allai gynrychioli risg yn meddu ar wybodaeth angenrheidiol am y disgybl dan sylw?
- Sut y bydd yr ysgol yn sicrhau bod defnydd bwriadedig o ymyriad corfforol yn gydnaws ag ymagwedd gadarnhaol i wella ymddygiad a dilyn datganiad y disgybl a'r cynllun cymorth bugeiliol?
- Pa gamau gweithredu y bydd yr ysgol yn eu cymryd i asesu technegau a dulliau ar gyfer gweithredu defnydd bwriadedig o ymyriad corfforol?

- Gyda phwy y bydd yr ysgol yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cytuno ar y technegau a'r dulliau i'w defnyddio i weithredu defnydd bwriadedig o ymyriad corfforol?
- Pa broses sydd ar waith i chi gyfeirio anghydfodau neu bryderon i'r ALI?

Defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol mewn sefyllfaoedd anrhagweladwy ac argyfyngau

4.21. Dylai ysgolion gydnabod y gall aelodau o staff, weithiau, ganfod eu hunain mewn sefyllfaoedd anrhagweladwy neu argyfyngau lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond defnyddio grym rhesymol i reoli argyfwng. Argymhellir:

- cyn defnyddio grym – y bydd staff yn ceisio tynnu sylw neu'n tawelu er mwyn rheoli'r sefyllfa;
- wrth ddefnyddio grym – mae'n rhaid i staff ddefnyddio technegau a dulliau y maent yn gyfarwydd â hwy, yn hyderus i'w defnyddio ac sy'n cael eu caniatáu gan yr ysgol; a
- mewn amgylchiadau eithriadol (lle bydd technegau a ganiateir yn aneffeithiol neu os nad yw'r staff yn gyfarwydd â'r camau y dylent eu cymryd) – dylai staff reoli'r sefyllfa hyd eithaf eu gallu i gydymffurfio ag Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

4.22. Dylai staff bob amser adrodd a chofnodi'r defnydd o rym corfforol sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd anrhagweladwy neu argyfyngau gan ddefnyddio gweithdrefnau'r ysgol.

Cymorth yn dilyn digwyddiad

4.23. Gall digwyddiadau sy'n galw am ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol fod yn annifyr i bawb sy'n gysylltiedig â hwy a gallant arwain at anafiadau i'r plentyn neu'r staff. Ar ôl i ddigwyddiadau ddod i ben, mae'n bwysig sicrhau bod y staff a'r disgyblion yn derbyn cymorth emosiynol a thriniaeth cymorth cyntaf sylfaenol i unrhyw anafiadau. Wrth gwrs, dylid sicrhau cymorth meddygol ar unwaith ar gyfer unrhyw anafiadau sy'n galw am fwy na chymorth cyntaf sylfaenol. Dylid adrodd a chofnodi pob anaf yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Dylai'r ysgol gymryd camau i adrodd unrhyw anafiadau i staff neu ddisgyblion yn unol â RIDDOR. (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995, HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk, CO10 6FS. Gwefan HSE: www.hse.gov.uk. Llinell wybodaeth HSE: 0541 545500 (HSE Information Centre, Broad Lane, Sheffield, S3 78HQ).

Materion i'r ysgolion fynd i'r afael â hwy

- Pa fathau o ddigwyddiadau anrhagweladwy neu argyfyngau y gallai staff eu profi yn eich ysgol?
- Pa dechnegau a dulliau ar gyfer defnyddio grym corfforol i reoli neu atal disgyblion fydd yn cael eu cydnabod fel technegau a dulliau addas i'w defnyddio mewn argyfyngau o'r fath?

- Pa gamau dylai staff eu cymryd i adrodd a chofnodi'r defnydd o rym corfforol mewn sefyllfaoedd anrhagweladwy ac argyfyngau?
- Pwy fydd yn rhoi cymorth i staff a phlant ar ôl digwyddiadau?
- Pwy fydd yn cadarnhau a oes anafiadau, darparu cymorth cyntaf a threfnu cymorth meddygol?
- Pwy fydd yn hysbysu HSE ynglŷn ag anafiadau?

Adrodd a chofnodi'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol

4.24. Ar ôl digwyddiadau lle bydd ymyriad corfforol wedi'i defnyddio, dylai staff adrodd a chofnodi'r mater yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Dylai pob digwyddiad sy'n galw am y defnydd o ymyriad corfforol gael eu dogfennu'n drylwyr ac yn systematig yng nghofnodion yr ysgol megis mewn cofrestrau, cofnodion a llyfrau digwyddiadau. Dylai'r ysgol gymryd camau i sicrhau bod rhieni a'r awdurdod lleol yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r digwyddiadau hyn yn unol â gweithdrefnau ac amserlenni cytûn.

Materion i'r ysgolion fynd i'r afael â hwy

- Sut mae digwyddiadau'n cael eu hadrodd a'u cofnodi?
- Pa gamau fydd yr ysgol yn eu cymryd i hysbysu rhieni a'r awdurdod lleol ynglŷn â digwyddiadau?

Monitro'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol

4.25. Dylai'r defnydd o ymyriad corfforol mewn ysgolion gael ei fonitro er mwyn helpu staff i ddysgu o'r profiad, hybu lles plant yn eu gofal, a darparu sail ar gyfer cymorth priodol. Gall monitro helpu ysgolion i benderfynu pa help arbenigol sydd ei angen ar gyfer plant ac i asesu priodoldeb lleoliad y plentyn yn yr ysgol. Dylid rhannu gwybodaeth am dueddiadau a phroblemau sy'n datblygu o fewn yr ysgol gan ddefnyddio gweithdrefnau lleol. Dylid cyflwyno gwybodaeth fonitro'n rheolaidd i lywodraethwyr ysgolion.

Materion i'r ysgolion fynd i'r afael â hwy

- Sut fyddwch chi'n monitro ac yn gwerthuso'r defnydd o ymyriad corfforol?
- Sut y bydd monitro digwyddiadau'n hysbysu prosesau asesu a rheoli risg?

Ymateb i gwynion

4.26. Gall y defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol arwain at gyhuddiadau o ddefnydd amhriodol neu ormodol. Os derbynnir cwyn gan yr ysgol mewn cysylltiad ag aelod o staff yn defnyddio grym, dylid delio â'r mater fel yr amlinellwyd yn gynharach ym mharagraffau 3.50 i 3.54 yn yr Adran hon,

Materion i'r ysgolion fynd i'r afael â hwy:

- Sut y bydd cwynion yn cael eu hymchwilio a gan bwy?

Hyfforddiant staff

4.27. Mae hyfforddiant mewn dulliau ymyriad corfforol sy'n dderbyniol o fewn yr ysgol ar gael a dylid annog athrawon a staff cymorth i fanteisio ar gyfleoedd o'r fath. Bwriedir i'r hyfforddiant hwn helpu staff i gysylltu anghenion plant â rheoli ymddygiad yn gadarnhaol. Dylai staff sy'n gysylltiedig â gweithredu defnydd bwriadedig o ymyriad corfforol, fel rhan o strategaeth rheoli ymddygiad o fewn yr ysgol, dderbyn hyfforddiant ar y technegau ymyryd amrywiol y disgwylir iddynt eu defnyddio yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Ar ôl cwblhau hyfforddiant yn llwyddiannus, disgwylir i staff ymarfer eu sgiliau a mynychu hyfforddiant diweddarau'n rheolaidd.

Materion i'r ysgolion fynd i'r afael â hwy:

- Sut y byddwch yn dewis hyfforddiant ar gyfer eich ysgol a beth fydd yr hyfforddiant yn ei gynnwys?
- Sut y bydd staff yn cael eu hasesu a'u diweddarau?

Asesu a rheoli risgiau i blant sy'n cyflwyno ymddygiad heriol

4.28. Cynlluniwyd y profforma asesu a rheoli risg sydd yn yr adran hon i helpu athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu ac oedolion eraill sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig i wella arfer mewn cysylltiad ag asesu a rheoli'r risg sy'n cael ei chyflwyno gan ddisgyblion ag ymddygiad heriol iawn. Gallai'r risg hon fod i'r disgyblion eu hunain, disgyblion eraill, athrawon, oedolion eraill neu eiddo.

Beth yw ystyr "risg" ac "asesu risg"?

4.29. Mae'r term "risg" yn cyfeirio at unrhyw amgylchiadau a allai arwain at ganlyniadau andwyol i'r plentyn neu i eraill. Gallai risgiau godi oherwydd nifer o ffactorau, megis y trefniadau gofal iechyd a chymorth cymdeithasol ar gyfer y plentyn; y cyswllt rhwng y plentyn a'i amgylchedd; effaith uniongyrchol ymddygiad y plentyn; y mesurau a'r ymyriadau a ddefnyddir i leihau, cyfyngu, neu reoli'r risgiau a gyflwynir i'r plentyn ac eraill. Mae asesu a rheoli risg yn broses sy'n helpu staff ac eraill i ystyried y materion risg, i weithredu'n rhesymol, a dysgu o'r hyn sy'n digwydd mewn arfer bob dydd. Yn ei hanfod, mae asesu a rheoli risg yn cynnwys:

- defnyddio'r hyn sy'n hysbys, yng ngoleuni profiad, i wneud penderfyniadau synhwyrol am faterion risg;
- pwyso a mesur yr opsiynau a chymryd risgiau rhesymol;
- cymryd camau i weithredu ymagweddau amrywiol i gefnogi a diogelu plant. Drwy weithio yn y ffordd hon, mae'n bosibl gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu i:
- lleihau lefel y risg gynhenid y mae plant ac eraill yn cael ei hamlygu iddi;

- cymryd risgiau pwrpasol i ehangu profiad y plentyn a manteisio i'r eithaf ar ei botensial neu ei photensial;
- osgoi risgiau afresymol i'r plentyn hwn ac eraill;
- sicrhau bod y strategaethau sy'n cael eu defnyddio i ymateb i ymddygiad heriol yn rhesymol, ac yn gymesur i'r risgiau a gyflwynir gan yr ymddygiad.

4.30. Bydd defnyddio ymagwedd strwythuredig ar gyfer asesu a rheoli risg yn helpu staff i wneud penderfyniadau ar yr hyn y gellir ei wneud yn rhesymol i leihau risgiau. Ar yr un pryd, bydd yn helpu i'w paratoi ar gyfer adegau pan fydd pethau'n mynd o chwith. Gellir rhagweld ymddygiad heriol yn aml, er y gall fod yn anodd rhagweld yn union pryd y bydd yn digwydd neu raddau'r her y bydd yn ei gyflwyno. Yn gyffredinol, dylai ysgolion:

- ymchwilio i weld pam fod plant yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n cyflwyno risg;
- ceisio deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar yr ymddygiad;
- cydnabod yr arwyddion rhybudd cynnar sy'n dangos bod ymddygiad y plentyn yn dechrau, a
- datblygu'r sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd yn gymwys a sensitif. Dylid nodi'r mesurau y cytunwyd arnynt ar gyfer rheoli risgiau a nodwyd mewn cynllun rheoli ymddygiad cytûn ar gyfer y plentyn unigol. Gellir defnyddio dulliau asesu a rheoli risg hefyd mewn argyfyngau pan fydd risgiau anrhagweladwy'n digwydd.

Asesu'r risg

4.31. Mae asesiad risg yn cynnwys ystyried y risg bosibl a'r risg wirioneddol. Y camau allweddol yw:

- **asesu'r cyd-destun am risg** - ceisio rhagweld y sefyllfaoedd lle mae risg yn digwydd neu lle gallai risg ddigwydd. Er enghraifft, sefyllfaoedd pan fydd disgyblion yn teimlo'n rhwystredig, pan fydd disgyblion yn agos at ffyrdd agored, ar drafnidiaeth neu mewn lleoedd poblog;
- **asesu tebygolrwydd** – ceisio amcangyfrif pa mor debygol yw hi y bydd y sefyllfa risg yn digwydd ac a fydd unrhyw anaf neu niwed yn debygol iawn o ddigwydd, yn debygol o ddigwydd, neu'n annhebygol o ddigwydd; a
- **asesu difrifoldeb** – ceisio mesur y math o anaf a niwed a allai ddigwydd. Er enghraifft: tagu, briwiau, gwaedu, ysigo, torri esgyrn, straen, wedi diffygio'n llwyr, pyliau o banig, gwaeledd nerfol ac anhwylder straen wedi trawma.

4.32. Yn y rhan hon, tybir y bydd yr ysgol yn defnyddio'r profforma asesu a rheoli risg. I rai disgyblion, bydd yn briodol i'r ALI gynnal yr asesiad cychwynnol, ac yna bydd yr ysgol yn ychwanegu ato.

4.33. Wrth asesu risgiau, dylid cofnodi pob un yn unol â'r gofynion perthnasol megis polisiau'r ALI neu'r ysgol. Os tybir bod risgiau'n ddifrifol i'r plentyn neu eraill, efallai y bydd angen i'r ysgol ddefnyddio fframweithiau ac offer asesu risg ffurfiol, megis "Pum Cam i Asesu Risg" yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Archwilio'r opsiynau lleihau risg

4.34. Mae lleihau risg yn cynnwys archwilio opsiynau rheoli risg ac ystyried manteision ac anfanteision pob opsiwn i'r plentyn, y staff ac eraill dan sylw. Ar ôl pwysu a mesur yr opsiynau sydd ar gael, efallai y bydd rhai ohonynt yn cael eu diystyru am eu bod yn anaddas. Y rheswm am hyn fel arfer yw nad ydynt yn cael effaith ddigonol ar y risg neu mae ganddynt ormod o anfanteision. Dylid cadw cofnod o'r opsiynau lleihau risg a ystyriwyd ac a wrthodwyd yn ogystal â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer pob disgybl. Dylai lleihau risg gynnwys:

- mesurau rhagweithiol i gefnogi'r plentyn yn effeithiol ac atal anawsterau rhag datblygu;
- ymyriadau cynnar i helpu'r plentyn mewn sefyllfaoedd anodd ac osgoi problemau; a
- mesurau bwriadedig i reoli'r plentyn ac eraill yn ddiogel, pan fydd anawsterau na ellir eu hosgoi yn codi.

4.35. Mewn amgylchiadau pan fydd pryderon y gallai'r opsiynau lleihau risg eu hunain sy'n cael eu hystyried gyflwyno risg i'r disgybl neu eraill, byddai'n ddarbodus i ysgolion ofyn am gyngor gan gyrff eraill. Gallai'r rhain gynnwys:

- y Bwrdd Diogelu Plant Lleol ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â phlant;
- yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â staff yr ysgol ac eraill;
- cynghorwyr meddygol;
- cynghorwyr cyfreithiol; neu
- gwasanaethau addysg yr ALI a / neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

Penderfynu ar fesurau rheoli risg

4.36. Dylai'r mesurau a ddewisir i atal risgiau rhag digwydd, rheoli risgiau sy'n codi ac ymateb i anafiadau a niwed sy'n digwydd fod yn seiliedig ar werthusiad llawn o'r holl opsiynau rheoli risg. Wrth gytuno ar y strategaeth rheoli risg, mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â risgiau greddfodol sy'n parhau i fodoli, hyd yn oed pan fydd y strategaeth wedi'i chyflwyno'n llawn; risgiau y gellir eu lleihau drwy gyflwyno'r strategaeth; a'r risgiau y gellir eu hatal drwy gyflwyno'r strategaeth ac unrhyw risgiau greddfodol yn y strategaeth.

4.37. Dylai'r mesurau rheoli risg cytûn fod yn sail i gynllun rheoli ymddygiad y plentyn a strategaeth rheoli risg yr ysgol. Dylid cofnodi pob penderfyniad a wneir am opsiynau rheoli risg yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Wrth ddewis gweithdrefnau rheoli risg ar gyfer cynllun rheoli ymddygiad y plentyn a strategaeth rheoli risg yr

ysgol, dylai ysgolion gynnwys rhieni, neu'r rhai â chyfrifoldeb rhiant. Bydd y ddwy ochr yn elwa ar ddull gweithredu o'r fath; gall rhieni archwilio mesurau ar gyfer cefnogi eu plentyn o fewn cyd-destun ehangach, a gallai ysgolion ganfod pethau y gallent fod wedi'u hesgeuluso fel arall.

4.38. Dylid ymgynghori â phobl broffesiynol o asiantaethau eraill hefyd yn y broses o benderfynu ar yr opsiynau gorau ar gyfer diddymu, lleihau neu gyfyngu'r risg, heb osod cyfyngiadau afresymol ar y plentyn, plant, staff yr ysgol neu eraill, neu amlygu eraill i risg afresymol. Bydd adeiladau ac adnoddau yn dylanwadu ar y strategaeth a ddefnyddir. Os bydd anghydfodau neu bryderon ynglŷn â'r mesurau a ddefnyddir, byddai'n ddarbodus i ysgolion ofyn am gyngor gan bobl neu gyrff eraill sydd wedi'u rhestru yn yr adran flaenorol.

Rhannu a chyfathrebu ymagwedd gytûn

4.39. Ar ôl cytuno arnynt, dylid rhannu'r cynllun rheoli ymddygiad a'r strategaeth rheoli risg gyda phawb sy'n gyfrifol am weithredu neu fonitro effaith y cynllun. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd yn helpu i sicrhau bod y rhai dan sylw yn gwybod y bydd y plentyn yn derbyn cefnogaeth a pham fod hynny'n digwydd, pa fathau o ymddygiad sy'n cael eu rheoli a sut y byddant yn cael eu rheoli; a pha fesurau rheoli risg y dylid eu defnyddio a phryd. Gellir rhannu'r strategaeth rheoli risg drwy grwpiau trafod, cyfarfodydd a dosbarthu gwybodaeth. Ymhlith y rhai y dylid eu hysbysu mae:

- y plentyn;
- ei rieni/rhieni neu'r rhai â chyfrifoldeb rhiant;
- aelodau'r tîm addysgu ac aelodau eraill o staff; a
- pobl broffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn, timau diogelu plant ac asiantaethau eraill. Dylai ysgolion gadw cofnod o'r rhai sy'n cael eu hysbysu ynglŷn â'r strategaeth.

Hyfforddiant staff

4.40. Ar ôl i'r cynllun a'r strategaeth rheoli risg gael eu rhannu gyda'r rhai sy'n gweithio gyda'r plentyn ac sy'n cefnogi'r plentyn, dylid rhoi ystyriaeth i allu staff i weithredu'r strategaeth. Yn arbennig, dylid cymryd camau i benderfynu pa hyfforddiant y gallai fod ei angen cyn eu gweithredu. Mae hyn yn hollbwysig, oherwydd bydd cyflwyniad llwyddiannus yn dibynnu ar gymhwyster ac arbenigedd staff. Dylai cofnodion ysgolion ddangos yr anghenion hyfforddiant a nodwyd o ganlyniad i'r strategaeth a sut y darparwyd hyfforddiant i alluogi staff i'w gweithredu. Pan fydd yn amlwg bod yna staff ag anghenion hyfforddiant sylweddol, dylid addasu cyflwyniad y strategaeth rheoli risg nes y bydd hyfforddiant perthnasol wedi'i roi i'r staff. Mewn rhai achosion, bydd angen hyfforddiant staff ar frys er mwyn gallu cyflwyno'n ddi-oed.

Gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd

4.41. Ochr yn ochr ag agweddau eraill o'u hymagwedd tuag at ymyriadau corfforol cyfyngol, dylai ysgolion adolygu mesurau asesu a rheoli risg yn rheolaidd. Dylid adrodd pob gwerthusiad o gynlluniau a strategaethau gan ddefnyddio gweithdrefnau'r ysgol a dylid eu cofnodi yng nghofnodion yr ysgol. Bydd y rhain yn gwneud cyfraniad pwysig ar gyfer hysbysu gwaith cynllunio yn y dyfodol a gwella arfer o ddydd i ddydd.

Atodiad 1A: Polisiâu ysgol – fframwaith awgrymedig

Gall sefyllfaoedd sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio grym ai peidio ddiwydd mewn unrhyw ysgol. Gall defnyddio grym a phenderfynu peidio â defnyddio grym amlygu disgyblion a staff i risgiau sylweddol. Mae sefydlu polisi clir ar gyfer yr ysgol ar y defnydd o rym gan staff yn rhan bwysig o leihau'r risgiau hyn.

Mae angen i bob ysgol ddatblygu polisi sydd wedi'i deilwra ar gyfer ei hamgylchiadau penodol. Mae'n arfer da gwneud hynny mewn ymgynghoriad â llywodraethwyr, staff, rhieni a disgyblion. Efallai y bydd y fframwaith isod yn ddefnyddiol i ysgolion sy'n datblygu neu'n adolygu eu polisiâu eu hunain.

Polisi ysgol ar y defnydd o rym gan staff i reoli neu atal disgyblion

Amcanion

Gallai'r rhain gynnwys datganiadau ar:

- amcan allweddol sicrhau diogelwch disgyblion a staff;
- atal achosion difrifol o dorri disgyblaeth yr ysgol;
- atal difrod difrifol i eiddo; a'r
- angen i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc.

Lleihau'r angen i ddefnyddio grym

Gallai'r adran hon gynnwys deunydd ynglŷn â:

- creu amgylchedd tawel sy'n lleihau'r risg y bydd digwyddiadau'n lle gallai fod angen defnyddio grym;
- defnyddio ymagweddau lles cymdeithasol ac emosiynol i addysgu disgyblion sut i reoli gwrthdaro a theimladau cryf;
- atal digwyddiadau rhag gwaethygu os byddant yn digwydd;
- dim ond defnyddio grym pan fydd y risgiau o wneud hynny'n gwrthbwysu'r risgiau o beidio â defnyddio grym; ac
- asesiadau risg a chynlluniau delio'n gadarnhaol ar gyfer disgyblion unigol.

Staff sydd ag awdurdod i ddefnyddio grym

- Gallai'r adran hon ddelio ag awdurdod parhaol a thros dro.
- O ran awdurdod parhaol, gallai esbonio bod pob athro a staff sydd wedi'u hawdurdodi gan y pennaeth i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion yn derbyn pŵer statudol yn awtomatig i ddefnyddio grym a nodi'r categorïau o staff sydd wedi'u cynnwys yn hyn.
- O ran awdurdod dros dro, gallai esbonio:

yr amgylchiadau lle bydd staff nad yw eu swyddi fel arfer yn cynnwys goruchwyllo disgyblion a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda disgyblion yn derbyn awdurdod i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion ac y bydd ganddynt felly'r pŵer statudol i ddefnyddio grym; a sut y bydd athrawon a staff eraill ag awdurdod parhaol yn gwybod pwy sydd ag awdurdod dros dro.

Penderfynu pryd i ddefnyddio grym

- Gallai'r adran hon gyflwyno canllawiau i helpu staff i benderfynu a ddylid defnyddio grym ai peidio mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, gallai awgrymu y dylai staff ond defnyddio grym pan:
 - fyddai canlyniadau posibl peidio ag ymyrryd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ystyried defnyddio grym;
 - fyddai'r tebygolrwydd o gyflawni'r canlyniad a ddymunir drwy ddulliau eraill yn isel; ac a
 - fyddai'r risg sy'n gysylltiedig â pheidio â defnyddio grym yn gwrthbwysu'r risg o ddefnyddio grym.
- Gallai'r adran hon esbonio hefyd:
 - sut y bydd staff (yn cynnwys pobl ag awdurdod dros dro i reoli neu fod yn gyfrifol am ddisgyblion) yn cael gwybodaeth am ddisgyblion a chynghor ar sut i ddelio â disgyblion sy'n cyflwyno risgiau arbennig i'w hunain neu i eraill (o ganlyniad i AAA a/neu anabledau a/neu amgylchiadau personol eraill, megis trais domestig); a
 - sut y dylai staff leihau'r risgiau uchaf, er enghraifft drwy ffonio'r heddlu os credir y byddai disgybl yr amheuir bod ganddo arf yn debygol o wrthod chwiliad.

Defnyddio grym

- Gallai'r adran hon bwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r grym lleiaf posibl sydd ei angen i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.
- Gallai'r adran hefyd:
 - cynghori y dylid rhoi rhybudd llafar clir i'r disgybl y gallai grym gael ei ddefnyddio;
 - awgrymu'r mathau o rym y gellir eu defnyddio, gan esbonio'n glir y dylid ond defnyddio unrhyw fath o ataliaeth sy'n debygol o anafu disgybl (yn arbennig unrhyw beth a allai gyfyngu ar anadlu) mewn argyfyngau eithafol yn unig pan nad oedd unrhyw ddewis amgen hyfyw; a
 - cynghori staff, i'r graddau y bo'n bosibl, na ddylent ddefnyddio grym oni fydd neu nes y bydd oedolyn cyfrifol arall yn bresennol i gefnogi, arsylwi ac i alw am gymorth.

Hyfforddiant staff

- Gallai'r adran hon drafod:
 - sut y gwneir penderfyniadau am hyfforddiant; a
 - sut y caiff hyfforddiant ei ddarparu.

Cofnodi digwyddiadau

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer penderfynu pa ddigwyddiadau i'w cofnodi a sut i'w cofnodi.
- Efallai y bydd ysgolion yn dymuno defnyddio eu fersiwn hwy o'r ffurflen cofnodi digwyddiadau atodedig (Atodiad 1B)

Adrodd digwyddiadau

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer adrodd digwyddiadau cofnodadwy i rieni.
- Gallai hefyd drafod adrodd i asiantaethau allanol megis gwasanaethau plant awdurdodau lleol, y Bwrdd Diogelu Plant Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, timau troseddau ieuenctid a'r heddlu.

Cymorth yn dilyn digwyddiadau

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau ar gyfer cefnogi staff a disgyblion sydd wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau, yn cynnwys diwallu anghenion corfforol ar unwaith ac ail-feithrin cydberthnasau, a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r digwyddiad.

Cwynion a chyhuddiadau

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion a chyhuddiadau o gamymddwyn sy'n deillio o ddigwyddiadau.

Monitro ac adolygu

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro effaith ei pholisi ar ddefnyddio grym ac ar gyfer adolygu a datblygu'r polisi, yn cynnwys rolau uwch arweinwyr a llywodraethwyr.

Atodiad 1B: Ffurflen cofnod o ddigwyddiadau

Manylion y disgybl neu'r disgyblion y defnyddiwyd grym arnynt gan aelod o staff (enw, dosbarth)	
Dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad	
Enwau'r staff cysylltiedig (yn uniongyrchol neu fel tystion)	
Manylion unrhyw ddisgyblion a fu'n gysylltiedig (yn uniongyrchol neu fel tystion), yn cynnwys a oedd unrhyw ddisgyblion cysylltiedig yn fregus oherwydd AAA, anabledd, rhesymau meddygol neu gymdeithasol.	
Disgrifiad o'r digwyddiad gan y staff dan sylw, yn cynnwys unrhyw ymgais i dawelu'r sefyllfa a rhybuddion a roddwyd y gallai grym gael ei ddefnyddio.	
Y rheswm dros ddefnyddio grym a disgrifiad o'r grym a ddefnyddiwyd.	
Unrhyw anaf a ddiodefwyd gan staff neu ddisgyblion ac unrhyw gymorth cyntaf a/neu sylw meddygol	
Y rhesymau dros wneud cofnod o'r digwyddiad	
Camau dilynol yn cynnwys cymorth yn dilyn y digwyddiad ac unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd yn erbyn disgyblion	
Unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiad a rannwyd gyda'r staff nad oeddent yn gysylltiedig â'r digwyddiad ac asiantaethau allanol	
Pryd a sut yr hysbyswyd y rhai â chyfrifoldebau rhieni ynglŷn â'r digwyddiad ac unrhyw safbwyntiau y maent wedi'u mynegi	
A gyflwynwyd unrhyw gwynion (ni ddylid cofnodi'r manylion yma)?	
Lluniwyd yr adroddiad gan: Enw a rôl: Llofnod: Dyddiad:	Cyd-lofnodwyd yr adroddiad gan: Enw a rôl: Llofnod: Dyddiad:

Atodiad 1C: Profforma ar gyfer asesu a rheoli risgiau rhagweladwy ar gyfer plant sy'n cyflwyno ymddygiad heriol – datblygu Cynllun Rheoli Ymddygiad

Enw'r plentyn
Grŵp dosbarth
Enw'r athro
Ysgol

Nodi Risg	
Disgrifio'r risg ragweladwy	
A yw'n risg bosibl neu wirioneddol?	
Rhestru pawb sy'n cael eu heffeithio gan y risg.	
Asesiad o Risg	
Ym mha sefyllfaoedd y mae'r risg yn digwydd fel arfer?	
Pa mor debygol yw hi y bydd y risg yn codi?	
Os bydd y risg yn codi, pwy sy'n debygol o gael ei anafu neu ei frifo?	
Pa fathau o anafiadau neu niwed sy'n debygol o ddigwydd?	
Pa mor ddifrifol yw'r canlyniadau niweidiol?	

Cwblhawyd yr asesiad gan:

Printiwch yr Enw

Llofnod..... Dyddiad

Atodiad 1C (parhad)

Opsiynau Lleihau Risg			
Mesurau	Opsiynau Posibl	Manteision	Anfanteision
Ymyriadau rhagweithiol i atal risg			
Ymyriadau cynnar i reoli risg			
Ymyriadau adweithiol er mwyn ymateb i ganlyniadau niweidiol			

Cynllun Rheoli Ymddygiad a Strategaeth Rheoli Risg Ysgol Cytûn		
Ffocws y Mesurau	Mesurau i'w defnyddio	Lefel y Risg
Ymyriadau rhagweithiol i atal risg		
Ymyriadau cynnar i reoli risg		
Ymyriadau adweithiol er mwyn ymateb i ganlyniadau niweidiol		

Cytunwyd gan:

Y berthynas â'r plentyn:

.....

Dyddiad:

.....

Atodiad 1C (parhad)

Cyfathrebu'r Cynllun Rheoli Ymddygiad a Strategaeth Rheoli Risg yr Ysgol		
Rhannwyd y cynlluniau a'r strategaethau gyda	Dull Cyfathrebu	Dyddiad Gweithredu

Materion Hyfforddiant Staff		
Anghenion hyfforddiant a nodwyd	Yr hyfforddiant a ddarparwyd i ddiwallu anghenion	Y dyddiad y cwblhawyd yr hyfforddiant

Atodiad 1C (parhad)

Gwerthusiad o Gynllun Rheoli Ymddygiad a Strategaeth Rheoli Risg yr Ysgol		
Y mesurau a nodwyd	Eu heffeithiolrwydd wrth gefnogi'r plentyn	Yr effaith ar risg
Ymyriadau rhagweithiol i atal risg		
Ymyriadau cynnar i reoli risg		
Ymyriadau adweithiol er mwyn ymateb i ganlyniadau niweidiol		
CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL		

Cafodd y cynlluniau a'r strategaethau eu gwerthuso gan:

Y berthynas â'r plentyn:

.....

Dyddiad:

.....

Adran 2: Sgrinio a chwilio disgyblion am arfau

1. Cyflwyniad

1.1. Fel rhan o'i mesurau i leihau troseddu treisgar a chynnal diogelwch mewn ysgolion, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno pŵer sy'n caniatáu i ysgolion yng Nghymru sgrinio unrhyw ddisgybl am gyllell neu arf arall, a chwilio disgyblion y credir eu bod yn cario arf. Mae'r pŵer hwn wedi'i gynnwys yn Adran 45 o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006, ac mae'r canllawiau yn yr Adran hon yn cyd-fynd â chyflwyno'r pŵer hwnnw.

1.2. Y prif ffyrdd o gadw cyllyll allan o ysgolion yw trwy addysgu pobl ifanc i ymddwyn yn well ac am beryglon cario cylllell yn anghyfreithlon. Dylai amrywiaeth o weithgareddau gyfrannu at hyn, megis rhaglenni yn yr ysgol ar wella ymddygiad a chyfleoedd yn y cwricwlwm i ddysgu am gyfrifoldeb, gwrthdaro a diogelwch, ac mae swyddogion cyswllt ag ysgolion yr heddlu'n gallu bod yn help mawr. Mae'r pwerau i sgrinio a chwilio'n cyd-fynd â'r rhaglenni hyn, ac maent yn ddau ddewis arall y gall ysgolion eu defnyddio.

1.3. Mae ysgolion yn llefydd diogel ar y cyfan. Dim ond canran fach o blant sy'n cario cyllyll neu arfau eraill yn yr ysgol ar unrhyw adeg. Mae hi eisoes yn drosedd dod â chyllell neu arf arall i'r ysgol. Gall staff ysgol eisoes chwilio disgybl, gyda chaniatâd, fel rhan o'u hawdurdod i ddisgyblu. Bydd y pŵer i sgrinio heb fod angen elfen o amheuaeth yn helpu i atal disgyblion rhag cario arf yn y lle cyntaf. Mae'r pŵer chwilio statudol newydd, o dan ddeddfau addysg, yn caniatáu i ysgolion chwilio heb ganiatâd, er y bydd y disgyblion yn cael eu diogelu mewn rhai ffyrdd: bydd yn helpu ysgolion i gymryd arfau oddi ar y lleiafrif bach sy'n torri'r gyfraith. Rydym yn gobeithio na fydd rhaid i lawer o ysgolion ddefnyddio'r pŵer, ond mae'n ddewis ychwanegol a all fod yn ddefnyddiol mewn rhai ysgolion i helpu i atal digwyddiad difrifol a chefnogi ymdrechion yr heddlu i leihau troseddu gan ac yn erbyn pobl ifanc ar y strydoedd o gwmpas ysgolion.

1.4. Nid oes rhaid i ysgolion ddefnyddio'r pwerau hyn – pŵer ydyw, nid dyletswydd. Mae'r pŵer i chwilio yn sgil amheuaeth yn bŵer arall y gall ysgolion ddewis ei ddefnyddio os credant fod disgybl yn cario cylllell neu arf arall ar y safle neu yn ystod ymweliad addysgol oddi ar y safle. Prif fantais y pŵer yw y gellir chwilio'r disgybl yn syth. Er hynny, gall ysgolion ddewis ffonio'r heddlu, a all benderfynu chwilio'r disgybl eu hunain.

1.5. Mae'r adran hon yn cynghori ysgolion yng Nghymru ar:

- y pŵer i sgrinio disgyblion am arfau heb fod angen elfen o amheuaeth, a
- y pŵer statudol (nid yw'n ddyletswydd gyfreithiol) sydd gan benaethiaid, a staff a awdurdodant, i chwilio disgybl heb ganiatâd os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod y disgybl yn cario cylllell neu arf arall. Gallant chwilio disgybl yn yr ysgol neu yn unrhyw le arall lle mae disgyblion dan ofal yr aelod o staff sy'n cynnal y chwiliad, fel yn ystod ymweliad addysgol oddi ar y safle. Os bydd staff ysgol yn penderfynu chwilio disgybl o dan y pŵer hwn, rhaid iddynt gydymffurfio â'r amodau a nodir yn y pŵer statudol.

1.6. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ysgolion a gynhelir yn bennaf, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, a byddant yn helpu ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion annibynnol, i benderfynu a ddylent sgrinio disgyblion, neu ddefnyddio'r pŵer chwilio newydd, neu'r ddau. Byddant hefyd yn helpu ysgolion i gydymffurfio â'r gyfraith a dilyn arferion da os penderfynant chwilio disgyblion dan amheuaeth a heb ganiatâd. Mae'r adran hon yn esbonio:

- beth y gall ysgolion ei wneud i sgrinio disgyblion;
- beth mae'n *rhaidd* i ysgolion ei wneud os dewisant chwilio disgybl neu eiddo disgybl am gyllell neu arf arall heb ganiatâd;
- beth na ddylai ysgolion ei wneud, ac
- arferion da a all helpu ysgol i gydymffurfio â'r gyfraith a chwilio'n effeithiol.

Ymgynghori â disgyblion

1.7. Bwriad y penderfyniad i gyflwyno mesurau sgrinio a chwilio yw diogelu disgyblion (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 19). Ar yr un pryd, ni ddylid tarfu'n fympwyol neu'n anghyfreithlon ar breifatrwydd disgyblion (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 16). Wrth gyflwyno'r mesurau hyn, dylai ysgolion gael barn plant a phobl ifanc mewn cymuned ysgol. Dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau bod disgyblion yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl mewn ffordd ddiduedd ac mewn fformat sy'n hygyrch iddynt. Dylent hefyd gael cyfle i ddeall a thrafod unrhyw oblygiadau ac effeithiau y byddai cyflwyno gweithdrefnau o'r fath yn eu cael arnynt.

2. Cwmpas y pwerau

Sgrinio heb gyswllt corfforol neu heb lawer o gyswllt corfforol

2.1. Gall ysgolion ei gwneud hi'n ofynnol i ddisgyblion gael eu sgrinio am arfau heb elfen o amheuaeth a heb ganiatâd trwy ddefnyddio datgelydd metel y mae rhywun yn cerdded trwyddo neu ddatgelydd metel llaw (bwa neu wialen), sef dull "heb gyswllt corfforol" neu "heb lawer o gyswllt corfforol" – ni fydd yr unigolyn sy'n archwilio'r disgybl yn gorfod ei deimlo, er hwyrach y bydd y wialen yn cyffwrdd â dillad y disgybl. Gellir gosod gofyniad ar gyfer sgrinio o'r fath o dan bŵer statudol ysgol i lunio rheolau mewn perthynas â pholisi ymddygiad a dyletswyddau cyflogwr yr ysgol i reoli diogelwch staff, disgyblion ac ymwelwyr.

2.2. Os bydd ysgol yn penderfynu y byddai'r sgrinio'n ddefnyddiol, argymhellir:

- y dylid sgrinio disgyblion ar hap yn achlysurol ar y safle, er enghraifft, dosbarth neu grŵp blwyddyn – dylai hyn fod yn ddigon fel arfer i atal disgyblion rhag cario arfau;
- mai o dan amgylchiadau eithriadol a/neu am gyfnodau byr yn unig y dylid sgrinio pob disgybl yn yr ysgol.

2.3. Os bydd disgybl yn gwrthod cael ei sgrinio, gall yr ysgol wrthod caniatáu i'r disgybl aros yn yr ysgol neu ar safle ymweliad addysgol. Mae gan yr ysgol bŵer

statudol i lunio rheolau rhesymol fel amod derbyn. Os bydd y disgybl yn methu cydymffurfio, a bod yr ysgol yn gwrthod caniatâu iddo aros yn yr ysgol, bydd y disgybl ar absenoldeb heb ei awdurdodi: nid yw'r ysgol wedi gwahardd y disgybl. Mae gan y disgybl ddyletswydd i gydymffurfio â'r rheolau a mynychu'r ysgol. Os bydd yn gwrthod mynychu'r ysgol, dylai'r swyddog lles ymchwilio i'r mater yn yr un modd ag unrhyw absenoldeb arall sydd heb ei awdurdodi. Os bydd y disgybl yn parhau i wrthod cael ei sgrinio, gall y Pennaeth ystyried ei wahardd ar sail y ffaith bod yr absenoldeb yn gyson ac yn torri ar bolisi ymddygiad yr ysgol.

2.4. Nid yw sgrinio heb gyswllt corfforol yn amodol ar yr un amodau â chwilio dan amheuaeth o dan y pŵer statudol i chwilio. Gall ysgolion sgrinio yng ngolwg disgyblion eraill. Dylai ysgolion sgrinio mewn ffordd resymol, a dylid hyfforddi staff i ddefnyddio bwâu a gwialenni (gweler Rhan 6, Hyfforddiant, isod). Er nad oes gan staff hawl i chwilio disgybl heb ganiatâd, nid oes angen awdurdod i sgrinio disgybl. Dylai staff ofyn i ddisgyblion dynnu unrhyw wrthrychau metelig a all achosi 'bîp' o'u pocedi cyn sgrinio. Mae gwialenni'n gymharol rad, a gallant gostio cyn lleied â £30.

2.5. Gall chwilio yn sgil amheuaeth a heb ganiatâd hefyd ddechrau trwy sgrinio. Os bydd gwialen neu fwa'n 'bipio', gan ddangos ei fod wedi canfod metel, ar ôl i ddisgybl ddweud nad oedd ganddo unrhyw wrthrychau metelig yn ei bocedi, gall hyn helpu'r sawl sy'n chwilio i gael caniatâd neu gydweithrediad y disgybl, neu ei annog i ildio'r hyn sydd ganddo.

Chwilio heb ganiatâd

2.6. Mae'r pŵer statudol i chwilio'n berthnasol pan fo sail resymol dros gredu bod gan ddisgybl unrhyw un o'r canlynol yn ei feddiant:

- unrhyw beth y cyfeirir ato yn y canllawiau hyn fel 'cyllell' – i fod yn fanwl gywir, unrhyw wrthrych â llafn neu flaen miniog. Nid yw'r diffiniad yn cynnwys cyllell boced sy'n plygu, oni bai fod ei hymyl dorri'n hirach na 3 modfedd neu na ellir ei phlygu'n hwylus bob amser (fel cyllell sy'n cloi). Ceir y diffiniad hwn yn adran 139 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988;
- gwrthrych y cyfeirir ato yn y canllawiau hyn fel arf bygythiol – i fod yn fanwl gywir, unrhyw wrthrych a wnaed neu a addaswyd i anafu unigolyn, neu unrhyw wrthrych y mae'r unigolyn sy'n ei gario'n bwriadu ei ddefnyddio, neu i rywun arall ei ddefnyddio, at ddiben o'r fath. Ceir y diffiniad hwn yn adran 1 Deddf Atal Troseddau 1953. Rhoddir sylw i dri math o wrthrych:
 - arf a wnaed i achosi anaf, fel dryll
 - gwrthrych a addaswyd i achosi anaf, fel potel a dorrir yn fwriadol at y diben, a
 - gwrthrych na chafodd ei wneud na'i addasu i achosi anaf ond y mae'r unigolyn sy'n ei gario'n bwriadu ei ddefnyddio at ddiben achosi anaf e.e. bat pêl fas.

2.7. Mae'r pŵer yn cynnwys pŵer i chwilio lle bo sail resymol dros gredu bod disgybl yn cario arf yn ddiarwybod iddo. Nid yw'r pŵer yn caniatáu chwilio heb elfen

o amheuaeth (ar hap neu'n gyffredinol), ond gweler hefyd yr adran ar "sgrinio" yn y canllawiau hyn.

Noder: Mae'n drosedd cario cylllell neu arf bygythiol yn yr ysgol. Mae'n amddiffyniad cario cylllell neu arf bygythiol at ddiben addysgol neu ddiben cyfreithlon arall.

Deddf Hawliau Dynol 1998

2.8. Credwn fod defnyddio'r pwerau hyn yn annhebygol o sbarduno unrhyw rai o hawliau'r Confensiwn yn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998. Os yw'r hawliau hyn yn cael eu sbarduno, gellir cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth ar sail cadw disgyblion a staff yn yr ysgol.

3. Rôl cyflogwr yr ysgol; datganiad o bolisi'r ysgol

Rheoli diogelwch

3.1. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i gyflogwyr ysgolion ddiogelu iechyd a diogelwch disgyblion a staff yn eu hysgolion; ac mae'n rhaid i benaethiaid ysgolion a gynhelir bennu mesurau i sicrhau bod eu disgyblion yn ymddwyn yn dderbyniol. Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu canllawiau, hyfforddiant a pholisi ar faterion iechyd a diogelwch. Er enghraifft, gallai cyflogwr gyfarwyddo pennaeth i awdurdodi staff diogelwch i chwilio disgybl os oes ganddynt sail resymol dros gredu ei fod yn cario arf.

Polisi ysgol

3.2. Os yw pennaeth yn bwriadu defnyddio'r pŵer i sgrinio neu'r pŵer statudol i chwilio, dylai gael barn y cyflogwr, y corff llywodraethu a'r staff, er enghraifft. Dylai proffil yr ysgol gynnwys gwybodaeth berthnasol am fesurau diogelwch yr ysgol yn yr adran ar iechyd a diogelwch. Gall y pennaeth gyflwyno'r wybodaeth fel polisi ysgol sy'n ategu ac yn cyd-fynd â pholisïau'r ysgol ar ymddygiad a defnyddio grym (gall pennaeth ddewis defnyddio pwerau i sgrinio neu chwilio'n unol â mesurau i sicrhau bod disgyblion yn ymddwyn yn dderbyniol). Dylai'r polisi:

- atgoffa disgyblion a rhieni ei bod yn drosedd cario cylllell neu arf bygythiol yn yr ysgol ac y gall y cosbau i ddisgybl a gollfernir fod yn ddifrifol; a
- os credir bod disgybl yn cario arf ond bod yr ysgol yn dewis ffonio'r heddlu yn lle defnyddio'r pŵer i chwilio, dylai'r polisi nodi sut y bydd staff yr ysgol yn rheoli'r disgybl er mwyn cadw disgyblion eraill a staff yn gymharol ddiogel nes i'r heddlu gyrraedd.

3.3. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn dewis llunio polisi enghreifftiol, dylai ysgolion a gynhelir gyfeirio ato, a hwyrach y bydd yn ddefnyddiol i ysgolion eraill, ynghyd â chyngor gan gymdeithasau proffesiynol. Dylai'r polisi fod yn seiliedig ar dulliau rheoli diogelwch, gan gynnwys asesu risg. Dylai gynnwys cyngor gan hyfforddwyr ar, er enghraifft, ymwybyddiaeth o arfau, chwilio, sefyllfaoedd tebygol a mesurau rheoli.

3.4. Hwyrach y bydd rhai ysgolion yn amharod i dynnu sylw at fwriad i sgrinio neu chwilio, yn enwedig os ydynt yn teimlo y byddai'n awgrymu bod yr ysgol yn cyfaddef i broblem o'r fath ac y gallai hyn effeithio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol. Ond os yw rhai disgyblion yn cario arfau, mae'n debyg y bydd rhieni eisoes yn ymwybodol o hynny, a byddant yn rhoi clod i'r ysgol am gymryd camau i fynd i'r afael â'r mater. Gall cyhoeddusrwydd hefyd atal disgyblion rhag dod ag arf i'r ysgol.

3.5. Fel rhan o reolau'r ysgol, gall ysgolion wahardd cyllyll boced sy'n plygu y gellid eu defnyddio i achosi niwed. Gall ysgolion sgrinio disgyblion am gyllyll o'r fath ond ni allant chwilio disgyblion heb ganiatâd yr amheuir nhw o fod yn cario cyllell boced sy'n plygu gan nad yw cylllyll o'r fath yn cael eu hystyried yn arfau o dan y Ddeddf.

4. Dewisiadau cyn chwilio heb ganiatâd

4.1. Fel arfer, dim ond ar ôl rhoi cynnig ar ddewisiadau eraill y dylai ysgolion ddefnyddio'r pŵer i chwilio heb ganiatâd:

- a. y brif ffordd o ddarbwylllo disgyblion i beidio â chario arf yw trwy eu haddysgu i ymddwyn yn dda, sut i ddatrys anghydfod heb drais a'r peryglon a'r cosbau mewn perthynas â chario arf yn yr ysgol neu rywle arall. Yn arbennig:
- b. mae gan swyddogion cyswllt yr heddlu gyfraniad allweddol i'w wneud i helpu ysgolion i ddyfeisio a defnyddio gwahanol ddulliau
- c. os bydd aelod o staff yn credu bod disgybl yn cario arf, gall geisio cadarnhau neu dawelu ei amheuaeth trwy holi'r disgybl
- d. os bydd y cwestiynu'n cadarnhau'r amheuaeth, dylai'r aelod o staff ofyn i'r disgybl ildio'r arf, gan ei atgoffa o'r pwyntiau allweddol ym mholisi'r ysgol a rheolau'r ysgol a'r ffaith bod cario arf yn yr ysgol yn drosedd a all arwain at gosbau difrifol. O 12 Chwefror 2007, y gosb am gario cyllell neu arf bygythiol yw hyd at 4 blynedd o garchar a/neu ddirwy. Mae cosbau tebyg i ieuencid yn seiliedig ar y ffaith fod cario cyllell yn cael ei ystyried yn drosedd o ddifrifoldeb canolig, ymysg ffactorau eraill.
- e. os bydd yr aelod o staff yn dal i gredu bod y disgybl yn cario arf a'i fod yn gwrthod ei ildio, dylai'r aelod o staff ofyn i'r disgybl am ganiatâd i'w chwilio. Wrth chwilio gyda chaniatâd, er nad yw'r cyfyngiadau statudol ar chwilio heb ganiatâd yn berthnasol, rydym yn argymhell y dylai ysgol eu dilyn.

Yn (c) – (e), dylai staff ddefnyddio technegau "siarad i lawr" i dawelu'r disgybl ac atal y sefyllfa rhag gwaethygu.

- f. Hwyrach y bydd gan aelod o staff sail resymol dros amau bod disgybl yn cario arf yn ddiarwybod iddo (e.e. nad yw'r disgybl yn ymwybodol bod yr arf wedi'i roi yn ei feddiant): mewn achos o'r fath, gellir chwilio'r disgybl, ond mae'n debygol y bydd yn barod i ildio'r arf os gofynnir iddo wneud hynny.

g. **Os bydd ysgol yn penderfynu na fyddai'n ddiogel i aelod o staff chwilio'r disgybl, dylai ffonio'r heddlu.** Fel y mae'r canllawiau hyn yn ei bwysleisio, nid yw'r pŵer i chwilio'n golygu bod dyletswydd ar staff i wneud hynny: dim ond os bydd staff yn barnu ei bod yn ddiogel chwilio'r disgybl y dylid mynd ati i wneud hynny. Yn arbennig, os bydd aelodau staff yn credu bod disgybl yn cario arf a'i fod yn debygol o wrthwynebu cael ei chwilio'n gorfforol, dylent ffonio'r heddlu yn hytrach na cheisio datrys y mater eu hunain. Mae ffactorau eraill y gall staff ysgol eu hystyried wrth farnu a fyddai'n ddiogel iddynt chwilio disgybl yn cynnwys:

- mae staff ysgol, yn enwedig uwch reolwyr, yn hynod fedrus ac mae ganddynt brofiad o reoli ymddygiad pobl ifanc dan eu gofal. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddatrys gwrthdaro;
- mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ddau oedolyn fod yn bresennol cyn chwilio disgybl; a
- mae'r canllawiau hyn yn argymhell y dylai staff dderbyn hyfforddiant cyn cael caniatâd i chwilio disgybl.

4.2. Hwyrach y bydd disgybl dan amheuaeth yn ceisio dianc cyn cael ei chwilio. Os bydd staff yn credu bod y ffaith bod y disgybl yn ceisio dianc yn dangos y byddai'n gwrthwynebu cael ei chwilio'n gorfforol, waeth a yw'n aros ar dir yr ysgol ai peidio a waeth a ddaethpwyd o hyd i arf ai peidio, dylai staff ffonio'r heddlu'n syth i nodi lleoliad posibl y disgybl, yn hytrach na cheisio dod o hyd i'r disgybl eu hunain.

5. Yn ystod chwiliad: agweddau ymarferol

Staff

5.1. Fel y nodir uchod, dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r pŵer i chwilio. Nid yw'n ddyletswydd. Ni all pennaeth ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un heblaw aelod o'r staff diogelwch chwilio disgybl os oes yna sail resymol dros gredu bod disgybl yn cario cylllell neu arf bygythiol. Ystyr staff diogelwch yw aelodau staff a gyflogir yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddiben diogelu'r ysgol. (Nid yw aelodau staff o'r fath, sydd ar gyflogres yr ysgol neu'r awdurdod lleol, yn gorfod cael eu trwyddedu gan eu bod yn warchodwyr diogelwch ar gontract, ond gall penaethiaid neu gyflogwyr wirio materion trwyddedu gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn <http://www.the-sia.org.uk/home/licensing/>.

5.2. Os yw'n rhesymol o dan yr amgylchiadau, gall pennaeth gyfarwyddo aelod o staff i fod yn bresennol yn ystod chwiliad. Argymhellir y dylai'r "ail unigolyn" hwn fod yn rhywun sydd eisoes wedi derbyn hyfforddiant mewn chwilio.

5.3. Mewn perthynas â hyfforddiant, yswiriant a rheoli diogelwch, argymhellir y dylai:

- hyfforddiant i'r sawl sy'n chwilio gynnwys sut i leihau unrhyw risg i'r sawl sy'n chwilio, yn ogystal ag i eraill;

- cyn cynnal chwiliad neu awdurdodi staff i chwilio, dylai'r pennaeth sicrhau bod yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr y cyflogwr yn cwmpasu unrhyw hawliadau posibl gan staff yn achos unrhyw anaf i staff o ganlyniad i chwilio disgybl am arf. Dim ond os yw'r yswiriant yn cwmpasu'r hawliadau hyn y dylid parhau a dylid rhoi gwybod i unrhyw staff awdurdodedig am yr yswiriant hwn. Gall cyflogwr ysgol awdurdod lleol drefnu ei yswiriant ei hun fel y gwêl yn dda, ond mae'n rhaid i unrhyw gyflogwr arall gael yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr;
- os bydd staff ysgol yn penderfynu nad yw'n ddiogel iddynt chwilio disgybl, ond eu bod yn dal i gredu ei fod yn cario arf, dylent ffonio'r heddlu – yn enwedig os ydynt yn credu bod disgyblion neu staff mewn perygl difrifol.
- mae staff sy'n cynnal chwiliad yn unol â'r gyfraith ac sy'n dilyn canllawiau eu cyflogwr yn cael eu diogelu o dan y gyfraith. Ni chaiff aelodau staff eu herlyn gan mai'r cyflogwr sy'n atebol am yr hyn y mae staff yn ei wneud mewn cyflogaeth, ac mae hyn yn aml yn berthnasol os bydd staff yn dilyn canllawiau eu cyflogwr.

5.4. Mae'n rhaid i ddau aelod o staff fod yn bresennol wrth chwilio disgybl neu ei eiddo heb ganiatâd (hyd yn oed os yw'r chwiliad yn cael ei gynnal gan y pennaeth, sydd yna'n un o'r ddau).

5.5. Wrth chwilio disgybl am arfau heb ganiatâd, mae'n rhaid i'r sawl sy'n chwilio a'r "ail unigolyn" fod o'r un rhyw â'r disgybl sy'n cael ei chwilio. Mae hyn yn golygu na ddylai ysgol heb ddau aelod gwryw o staff chwilio bechgyn heb ganiatâd ac, os nad oes contractwr diogelwch ar gael, dylid ffonio'r heddlu'n syth. Gall aelod staff o'r rhyw arall i'r disgybl chwilio eiddo disgybl heb ganiatâd; mae'n rhaid i'r disgybl fod yn bresennol.

5.6. Wrth chwilio am arfau heb ganiatâd, mae'n rhaid i'r "ail unigolyn" fod yn aelod o staff yr ysgol, sef unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol neu unrhyw un arall y mae'r pennaeth wedi'i awdurdodi i ofalu'n gyfreithiol am y disgyblion.

5.7. Gall staff yr ysgol chwilio disgybl y tu allan i'r ysgol os yw'r disgybl o dan eu gofal neu eu rheolaeth e.e. yn ystod ymweliad addysgol oddi ar y safle. Yn ystod teithiau ysgol, fel arfer dylai staff ffonio'r heddlu yn hytrach nag awdurdodi aelod o staff i chwilio ar bob taith os oes yna unrhyw elfen o amheuaeth.

5.8. Er na fyddai'r gyfraith ar y pŵer i chwilio'n atal mwy na dau unigolyn rhag bod yn bresennol yn ystod y chwiliad, rydym yn argymhell mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai ysgol ganiatáu i fwy na dau aelod o staff fod yn bresennol. Er enghraifft, hwyrach y bydd hi'n haws chwilio disgybl ag Anghenion Addysgol Arbennig gyda chymorth oedolyn arall sy'n arbenigo yn anghenion y disgybl; neu, os oes yna agweddau crefyddol neu ddiwylliannol i'w hystyried, hwyrach y byddai oedolyn â gwybodaeth am yr agweddau hynny'n ddefnyddiol.

5.9. Hwyrach y gallai presenoldeb rhiant helpu o dan rai amgylchiadau. Mewn egwyddor, gellir cynnal chwiliad pan fydd pobl eraill yn bresennol (hynny yw, yn ogystal â'r disgybl a'r ddau aelod o staff o'r un rhyw), er y dylid gwarchod

preifatrwydd ac urddas y disgybl. Mewn rhai achosion, efallai y dylid mynd â'r disgybl i ystafell ar wahân, er enghraifft os oes gofyn tynnu gorchudd pen crefyddol.

6. Hyfforddiant ar gyfer staff ysgol

6.1. Dylai'r pennaeth dderbyn hyfforddiant os yw'n bwriadu chwilio disgyblion dan amheuaeth o gario arf a heb ganiatâd, a dylai drefnu hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant adnewyddu) ar gyfer unrhyw aelodau staff y bydd yn eu hawdurdodi i chwilio disgyblion. Ni ddylai unrhyw un chwilio cyn cael hyfforddiant.

6.2. Nid yw'n ofynnol i aelodau staff sy'n chwilio disgyblion yn wirfoddol yn eu hysgol eu hunain feddu ar drwydded o dan Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001. Felly, ni fyddai cwrs 'goruchwylio drws' 30 awr llawn yn briodol. Wedi dweud hynny, dylai hyfforddiant fod yn ddigon eang i gwmpasu'r holl bynciau yn y canllawiau hyn, gan gynnwys, er enghraifft, ymwybyddiaeth o'r hyn a ystyrir yn arf, mater unrhyw ddillad amddiffynnol i'r sawl sy'n chwilio, cofnodi llwybr tystiolaeth, cymryd eitemau anghyfreithlon oddi ar rywun a chadw disgybl ar ôl dod o hyd i arf.

6.3. Gallai hyfforddwyr lleol mewn ymwybyddiaeth o arfau a thechnegau chwilio helpu i asesu anghenion ysgol a threfnu hyfforddiant addas gyda phennaeth, neu gyda grŵp o benaethiaid a staff perthnasol. Gall hyfforddiant o'r fath ystyried amgylchedd ac amgylchiadau'r ysgol. Gall hefyd adeiladu ar wybodaeth staff am y disgyblion a'u sgiliau disgyblu a thawelu cyfredol. Mae rhai darparwyr yn codi tâl fesul hyfforddai. Mae eraill yn codi tâl fesul diwrnod, faint bynnag o hyfforddeion sy'n bresennol (fel arfer rhwng £250-£400 y dydd ar gyfer grŵp cyfan). Dylai penaethiaid sydd am dderbyn hyfforddiant neu drefnu hyfforddiant ar gyfer staff fynd i <http://www.skillsforsecurity.org.uk> i gael cyngor ac enwau hyfforddwyr a restrir o dan Products and Services – Basic Weapons Awareness. Mae gan oddeutu 40 o hyfforddwyr, sydd ar gael trwy Skills for Security, dystysgrif Skills for Security ac maent yn cydymffurfio â chod ymarfer y cytunwyd arno gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Dylai penaethiaid sydd am gael hyfforddiant gan ddarparwyr hyfforddiant eraill wirio enw da a chynnwys y cwrs a hysbysebir.

6.4. Dylai hyfforddiant gynnwys cwestiynau i'w gofyn a gwybodaeth i'w darparu i'r disgybl sy'n cael ei chwilio e.e. dylai'r sawl sy'n chwilio egluro'r rheswm dros y chwilio, yr hyn y gall y sawl sy'n chwilio ei wneud o dan y pŵer a beth fydd yn digwydd neu all ddigwydd yn ystod y chwiliad.

6.5. Os bydd staff yn penderfynu ffonio'r heddlu, dylent ddilyn y gweithdrefnau ym mhoholisi'r ysgol (gweler uchod) ar sut i ddelio â disgybl sydd dan amheuaeth nes i'r heddlu gyrraedd.

7. Cyswllt rhwng yr ysgol a'r heddlu lleol

7.1. Waeth a yw ysgolion yn defnyddio'r pŵer newydd i chwilio heb ganiatâd ai peidio, dylai ysgolion sefydlu a datblygu partneriaethau cryf gyda'r heddlu lleol. Gallai hyn arwain at weithdrefnau diogelwch a threfniadau chwilio gwell a mwy costeffeithiol. Gall Swyddogion Cyswllt ag Ysgolion yr Heddlu helpu i ddatblygu mecanwaith effeithiol i sicrhau bod ysgolion, yr heddlu ac asiantaethau lleol eraill yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd drefnus.

8. Defnyddio staff o gwmnïau diogelwch

8.1. Os bydd ysgol am ddefnyddio cwmni diogelwch, credir mai sgrinio heb elfen o amheuaeth er mwyn atal yw'r dull mwyaf costeffeithiol. Mae'r dull hwn yn debygol o ddarparu gwell gwerth am arian na thalu cwmni i gadw staff wedi'u hyfforddi ar alwad yn barhaol fel y gallant fynd i ysgolion ar fyr rybudd i chwilio pan fydd elfen o amheuaeth – byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid i'r pennaeth roi gofal cyfreithiol iddynt dros y disgyblion sy'n cael eu chwilio, a'u hawdurdodi i'w chwilio.

8.2. Er gwaethaf yr uchod (neu mewn cydweithrediad â sgrinio heb amheuaeth), os bydd rheolwyr ysgol yn penderfynu y byddai'n gosteffeithiol i staff cwmni diogelwch chwilio disgyblion dan amheuaeth, yna:

- dylai'r pennaeth roi gofal cyfreithiol dros ddisgyblion, at ddibenion chwilio, i unrhyw warchodwr diogelwch y bydd yn ei awdurdodi i chwilio, fel rhan o'r contract rhwng y cwmni diogelwch a'r ysgol;
- os bydd gweithiwr cyflogedig cwmni diogelwch yn chwilio disgybl, argymhellir y dylai'r ail unigolyn sy'n bresennol fod yn aelod parhaol o staff yr ysgol (sydd wedi'i awdurdodi i chwilio), gan fod staff y cwmni diogelwch yn debygol o fod yn llai cyfarwydd â'r ysgol a'i disgyblion.

8.3. Hwyrach y bydd rhai ysgolion neu awdurdodau lleol eisoes yn talu cwmni i ddarparu gwasanaethau diogelwch – e.e. cylchwylio fin nos. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i warchodwyr diogelwch gael trwydded i weithredu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA). Mae trwydded yn golygu bod gan y gwarchodwr gymhwyster ffurfiol gyda (ar gyfer gwarchodwyr diogelwch rheng flaen) hyfforddiant mewn chwiliadau personol ac ymdopi â gwerthdaro a risg, ond nid o reidwydd wrth weithio gyda phlant. Mae'r SIA yn nodi y bydd deiliaid trwydded wedi'u gwirio (o ran iechyd meddwl ac nad ydynt wedi troseddu). Am ragor o wybodaeth, ewch i <http://www.the-sia.org.uk/home> sy'n cynnwys cofrestr o ddeiliaid trwydded.

8.4. Gall ysgolion gael gwybodaeth am gwmnïau sy'n cynnig gwarchodwyr diogelwch mewn hysbysebion lleol neu genedlaethol neu gan Gymdeithas Diwydiant Diogelwch Prydain (mae ei 500 a mwy o aelodau'n cyflawni dros 70% o waith diogelwch yn y DU) yn: <http://www.bsia.co.uk/companyfinder> Mae gan yr SIA hefyd gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau diogelwch sydd wedi cyflawni'r Cynllun Contractwyr Cymeradwy yn http://www.the-sia.org.uk/home/acs/roac_intro.htm

9. Awdurdodi

9.1 Nid oes angen awdurdod ar bennaeth i chwilio am arfau heb ganiatâd, ond mae'n rhaid i bennaeth awdurdodi aelodau staff eraill cyn y gallant chwilio disgyblion. Gall awdurdod i wneud hyn fod yn barhaol neu am dymor hir, neu am gyfnod byrrach a nodir, a dylid ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

9.2 Argymhellir y dylai'r "ail unigolyn" mewn chwiliad fod wedi'i hyfforddi a'i awdurdodi i chwilio, oherwydd efallai y bydd yr aelod o staff sy'n cynnal y chwiliad yn gofyn i'r aelod o staff sy'n dyst i'r chwilio helpu'n fwy ymarferol. Mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi'i awdurdodi i chwilio. Gall yr ail unigolyn ddefnyddio grym rhesymol i atal disgybl os bydd yn ceisio ymosod ar yr unigolyn sy'n cynnal y

chwiliad, er bod digwyddiadau o'r fath yn brin; mae pŵer statudol aelodau staff i ddefnyddio grym yn berthnasol (gweler Adran 13 isod).

9.3 Fel arfer, dylai penaethiaid sy'n dewis awdurdodi staff wneud hynny'n gyffredinol fel y gallant chwilio unrhyw ddisgybl dan amheuaeth unrhyw bryd ac ar fyr rybudd. Dim ond pan fydd staff yn amau disgybl y gellir awdurdodi chwiliad penodol, a gall hyn arwain at oedi diangen. Gallai pennaeth benderfynu awdurdodi aelod o staff i gynnal math arbennig o chwiliad e.e. yn ystod ymweliad addysgol oddi ar y safle (er mai anaml y gwneir hyn am resymau ymarferol) neu ar gyfer grŵp o ddisgyblion y mae'n eu hadnabod yn dda. Dylai penaethiaid ystyried yn ofalus a ddylid awdurdodi staff tymor byr neu eraill, yn enwedig gwirfoddolwyr, efallai nad ydynt yn adnabod y disgyblion cystal â staff parhaol. Dylai staff ysgol nad ydynt wedi'u hawdurdodi i chwilio sy'n credu bod disgybl yn cario arf roi gwybod i'r pennaeth neu gydweithiwr sydd wedi'i awdurdodi, neu ffonio'r heddlu.

9.4 Dylai penaethiaid gadw cofnod o staff sydd wedi'u hawdurdodi, y math o awdurdodi sydd ganddynt (cyffredinol, math arbennig o chwiliad neu chwiliad penodol) a'r hyfforddiant sydd wedi'i dderbyn.

9.5 Pan na fydd y pennaeth ar y safle, os oes pennaeth dros dro wedi'i benodi (sef y dirprwy bennaeth mewn rhai achosion), gall ddefnyddio grym y pennaeth i chwilio neu awdurdodi aelod arall o staff i chwilio.

9.6 Gall aelod o staff ysgol sydd wedi'i awdurdodi ysgol chwilio disgyblion o ysgol arall sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu yn yr ysgol.

10. Amheuan rhesymol (sy'n caniatáu i chwiliad gael ei gynnal)

10.1 Os bydd staff wedi'u hawdurdodi yn credu bod arf rhywle yn yr ysgol neu ar ymweliad addysgol oddi ar y safle, gallant chwilio unrhyw rai o ddisgyblion yr ysgol os oes ganddynt sail resymol dros gredu eu bod yn cario arf. Safon gyfreithiol yw hon, yn hytrach na safon oddrychol; mae'n rhaid i'r sawl sy'n chwilio asesu'r hyn a ystyrir, ym mhob achos penodol, yn sail resymol dros gredu bod disgybl yn cario arf. Wrth wneud penderfyniad, dylai'r sawl sy'n chwilio ystyried y ffactorau canlynol:

- a. Gall sgrinio heb gyswllt corfforol neu heb lawer o gyswllt corfforol gyda gwialen neu fwa sefydlu a oes amheuaeth.
- b. Dylai amheuaeth fod yn seiliedig ar ffeithiau sy'n berthnasol i'r tebygolrwydd o ddod o hyd i arf. Anaml y caiff amheuaeth resymol ei chefnogi ar sail ffactorau personol yn unig, heb wybodaeth neu ffeithiau ategol am ymddygiad penodol y disgybl. Er enghraifft, ni ddylid defnyddio hil, oedran nac ymddangosiad disgybl, nac unrhyw gamymddwyn yn y gorffennol pell, ar eu pennau eu hunain na gyda'i gilydd, fel y rheswm dros amau'r disgybl hwnnw. Ni all amheuaeth resymol fod yn seiliedig ar gyffredinoli neu ystrydebau o grwpiau neu gategoriâu penodol o ddisgyblion sy'n fwy tebygol o gario arf. Fodd bynnag, fel arfer bydd ysgolion yn gallu gwneud penderfyniadau rhesymol yn seiliedig ar eu gwbyodaeth am ddisgyblion a'u hymddygiad yn y gorffennol.

- c. Os bydd aelod o staff yn credu bod cylllell rhywle ar y safle, er nad yw'n siŵr ymhle, gall yr amheuaeth ddechrau troi o'r disgyblion mwyaf tebygol i rai llai tebygol (sydd, er enghraifft, wedi'u bwlio i 'gadw' cylllell).
- d. O ganlyniad i holi, gall y sail resymol dros yr amheuaeth gael ei chadarnhau neu ei dileu. Gall holi cwestiynau hefyd sefydlu sail resymol dros gredu bod disgybl yn cario gwrthrych anghyfreithlon sy'n wahanol i'r un y credwyd ei fod yn cario'n wreiddiol. Ond er y gall staff sy'n amau disgybl holi'r disgybl (ac, o ganlyniad, gadarnhau neu ddileu eu sail resymol dros amau) cyn chwilio, ni fyddai staff yn defnyddio canlyniad chwiliad i ddarparu sail dros amau yn y lle cyntaf.

Gweler isod am amheuaeth am wrthrychau y deuir o hyd iddynt yn ystod chwiliad.

11. Lleoliad

11.1 Er y gall disgyblion gael eu sgrinio mewn rhan gyhoeddus o'r ysgol, rydym yn argymhell y dylai ysgolion wneud popeth o fewn eu gallu i gynnal chwiliad heb ganiatâd ar sail amheuaeth mewn man preifat – hynny yw, o olwg unigolion heblaw'r rheini sydd â'r hawl i fod yn bresennol. Os na fydd hyn yn bosibl – er enghraifft, oherwydd bod y disgybl yn gwrthod cydweithredu, dylid ffonio'r heddlu. Gweler Rhan 4[g].

12. Graddau'r chwiliad – dillad ac eiddo

12.1 Mae'r pŵer i chwilio ar sail amheuaeth a heb ganiatâd yn galluogi chwiliad personol, sy'n golygu tynnu'r dillad allanol a chwilio'r pocedi, ond nid chwiliad manwl, gan mai dim ond unigolyn â phwerau ehangach (e.e. swyddog yr heddlu) all wneud hynny.

12.2 Gall y sawl sy'n chwilio gyffwrdd dillad unigolyn, ond heb gyffwrdd y corff yn uniongyrchol. Os bydd y math hwn o chwilio'n dod o hyd i wrthrych, er enghraifft, mewn poced trowsus, gall y sawl sy'n chwilio ofyn i'r disgybl dynnu'r gwrthrych allan a'i ddangos iddo. Os bydd y disgybl yn gwrthod, gall y sawl sy'n chwilio chwilio'r boced. Ni ddylid chwilio poced os bydd yr aelod o staff yn credu y bydd y disgybl yn ei ddehongli fel ymosodiad. Yn hytrach, dylid ffonio'r heddlu.

12.3 Gall y sawl sy'n chwilio fynnu bod y disgybl yn tynnu ei ddillad allanol (e.e. cot, siaced neu siwmpwr – gweler hefyd y diffiniad ac enghreifftiau o ddillad allanol yn y ddeddfwriaeth) os yw hynny'n angenrheidiol i'r chwiliad. Os bydd y disgybl yn gwrthod, gall y sawl sy'n chwilio ddefnyddio grym rhesymol i dynnu dillad allanol (gweler Rhan 13). Os nad yw grym rhesymol yn ddigon i dynnu'r dillad allanol a bod staff yn dal i gredu ei fod yn cario arf, dylent ffonio'r heddlu. Mae'r dewis hwn ar gael bob amser: gall yr ysgol roi'r gorau i chwilio a ffonio'r heddlu unrhyw bryd. (Gall gwrthod chwiliad heddlu fod yn drosedd.)

12.4 Ni ddylai staff fynnu bod disgybl yn tynnu dillad mae'n eu gwisgo o dan ddillad allanol, neu geisio dynnu'r dillad hynny eu hunain: e.e. trowsus, sgert, sari, crys, blows, shalwar-kameeze (tiwnig a throwsus), sanau a theits. Ni ddylent chwaith geisio annog disgybl i dynnu dillad o'r fath yn wirfoddol. Dylid egluro i ddisgyblion

sy'n gwirfoddoli i dynnu dillad o'r fath nad oes rhaid iddynt wneud hynny. Mae'n rhaid i staff fod yn ofalus rhag dal na chyffwrdd â disgybl yn anweddus.

12.5 Wrth chwilio, dylai ysgolion gymryd camau rhesymol i warchod urddas a phreifatrwydd y disgybl sy'n cael ei chwilio:

- mae rhai o'r amddiffyniadau hyn yn ofynnol o dan y gyfraith newydd: mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n chwilio disgybl a'r unigolyn arall sy'n bresennol fod o'r un rhyw â'r disgybl sy'n cael ei chwilio (gweler uchod). Gall methu cymryd camau rhesymol i warchod urddas a phreifatrwydd y disgybl sy'n cael ei chwilio fod yn groes i hawliau'r disgybl o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'r cyngor isod yn mynd i'r afael â'r materion dan sylw:
- fel y nodir o dan **Lleoliad**, rydym yn argymhell y dylid chwilio o olwg disgyblion a staff eraill – er na fydd preifatrwydd yn bosibl bob amser e.e. os bydd staff yr ysgol yn penderfynu chwilio llinell o ddisgyblion sy'n aros i fynd ar fws;
- dylai'r sawl sy'n chwilio fod yn ystyriol o faterion hil, diwylliant neu grefydd e.e. os oes gan orchudd pen neu ddilledyn allanol arall arwyddocâd crefyddol neu ddiwylliannol. Mewn achos o'r fath, dylai'r ddau gam blaenorol fod o gymorth. Gweler hefyd Adran 14 ar Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Meddygol;
- hwyrach y bydd bechgyn sy'n Sikhiaid yn cario cylllell ddefodol (kirpan) fel dyletswydd grefyddol. Gan fod hon yn eitem ddilys, dylai staff yr ysgol ofyn i'r disgybl ei datgan cyn iddo gael ei sgrinio neu ei chwilio yn yr un modd ag y byddai'n datgan gwrthrychau metelig dilys eraill (e.e. allweddi neu ddarnau arian).

12.6 Mae eiddo disgybl yn cynnwys unrhyw nwyddau y mae ganddo reolaeth drostynt neu nwyddau yr ymddangosir bod ganddo reolaeth drostynt e.e. beic, basgedi beic, beic modur, car (gan gynnwys car teuluol). Gall ysgol eisoes chwilio cwpwrdd clo disgybl gan fod cypyrddau clo neu gyfleusterau storio eraill yn eiddo i'r ysgol. Mae'r pŵer newydd yn diogelu pwerau cyfredol.

13. Defnyddio grym

13.1 Mae'r pŵer sydd gan staff ysgol i ddefnyddio grym rhesymol i atal disgybl rhag cyflawni trosedd, anafu ei hun neu eraill, difrodi eiddo neu beryglu trefn a disgyblaeth yn berthnasol i chwilio heb ganiatâd. Er bod y gyfraith yn caniatáu i staff ddefnyddio grym, rydym yn eu cynghori i ffonio'r heddlu yn hytrach na defnyddio grym i barhau i chwilio os bydd disgybl y credir ei fod yn cario arf yn gwrthsefyll chwiliad yn gorfforol (gweler adran 4[f] uchod). Gweler hefyd Adran 9, sy'n nodi pryd y gall yr ail unigolyn ddefnyddio grym rhesymol (i wrthwynebu ymosodiad annisgwyl ar y sawl sy'n chwilio).

14. Anghenion addysgol arbennig/anghenion meddygol

14.1 Hwyrach y bydd disgybl yn poeni am gael ei chwilio heb ganiatâd. Hwyrach y bydd rhai disgyblion â phroblemau ymddygiad yn ymateb yn wael i gael eu chwilio

neu eu cadw mewn ystafell breifat. Dylai staff ysgol ystyried canllawiau ar ddefnyddio ymyriadau corfforol rhwystrol ar ddisgyblion ag anawsterau ymddygiad difrifol (gweler Adran 2, Rhan 4 o'r ddogfen hon). Yn hyrrach na chynnal chwiliad eu hunain, dylai ysgolion ffonio'r heddlu os byddant yn disgwyl i ddisgybl wrthsefyll chwiliad.

14.2 Fel arfer, ni ddylai penaethiaid nac aelodau staff eraill esgusodi disgyblion o chwiliad ar sail eu hanghenion addysgol arbennig neu eu hanghenion meddygol. Fodd bynnag, dylai ysgolion ystyried unrhyw ystyriaethau ychwanegol e.e. trwy dreulio mwy o amser yn trafod eu hamheuaeth gyda phlentyn ag anawsterau dysgu neu anghenion meddygol cyn chwilio, a chynnwys y cydgysylltydd anghenion addysgol arbennig. Dylai unrhyw oruchwyliwr un-i-un disgybl sy'n cael ei chwilio fod yn bresennol hefyd.

15. Canlyniadau

Ar ôl chwilio

15.1 Os na ddaethpwyd o hyd i arf, gall yr ysgol benderfynu peidio â chymryd camau pellach, ond dylai:

- gofnodi'r canlyniadau'n gryno;
- hysbysu rhieni'r disgybl, a
- hysbysu corff llywodraethu'r ysgol yn flynyddol faint o chwilio neu sgrinio a gyflawnwyd o dan bolisi'r ysgol, a'r canlyniadau.

a. pŵer i gymryd rhywbeth oddi ar rywun

Gall y sawl sy'n chwilio gymryd rhywbeth oddi ar rywun:

- unrhyw gyllell neu arf bygythiol neu unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio fel arf bygythiol. Gweler isod ar storio ac ildio;
- unrhyw gyllell neu arf arall y daethpwyd o hyd iddo'n 'ddamweiniol' – er enghraifft, wrth gymryd ffôn symudol oddi ar ddisgybl. Dylai staff drin yr arf fel petaent wedi bod yn chwilio amdano;
- unrhyw beth sy'n darparu sail resymol dros amau bod trosedd wedi'i chyflawni – er enghraifft, trosedd yn ymwneud â chyffuriau neu eiddo wedi'i ddwyn. Gweler isod ar eiddo heblaw arfau.
- Os bydd staff ysgol yn cymryd cylllell y credant sy'n anghyfreithlon oddi ar ddisgybl, dylent hysbysu'r heddlu'n syth. Gan fod rhaid i staff drosglwyddo'r gyllell i'r heddlu, dylent ofyn a yw'r heddlu'n fodlon ei chasglu o'r ysgol. Pan fyddant yn dod i wybod am y drosedd honedig, hwyrach y bydd yr heddlu am ddod i'r ysgol i holi'r disgybl a oedd yn cario'r gyllell; a
- Os bydd yr aelod o staff sydd wedi'i awdurdodi wedi cymryd cylllell anghyfreithlon neu arf arall a oedd yn cael ei gario gan ddisgybl oddi arno, dylai'r aelod o staff a'r ail unigolyn drefnu bod rhywun yn ffonio'r heddlu.

Os bydd yr heddlu'n dweud y byddant yn dod i'r ysgol i holi'r disgybl, dylai staff warchod y disgybl gyda grym rhesymol nes i'r heddlu gyrraedd. Dylai staff hefyd warchod disgybl pan fyddant wedi ffonio'r heddlu er mwyn chwilio'r disgybl hwnnw.

b. storio ac ildio arf wedi'i gymryd oddi ar rywun

Os caiff arf anghyfreithlon honedig ei gymryd oddi ar rywun, *mae'n rhaid* ei drosglwyddo i'r heddlu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Fel arfer, byddai hyn yn digwydd yn yr ysgol pe bai'r heddlu'n dod yno mewn ymateb i alwad yr ysgol. Mae'n gyfreithlon i staff gadw arf wedi'i gymryd oddi ar ddisgybl (rydym yn argymhell ei gadw mewn cwpwrdd dan glo) nes y trosglwyddir ef i'r heddlu. Dylai'r pennaeth hefyd drefnu i roi nodyn ysgrifenedig i'r heddlu yn nodi bod eitem wedi'i chymryd wedi'i throsglwyddo.

c. eitemau eraill y daethpwyd o hyd iddynt

Hwyrach y deuir o hyd i eitemau sy'n groes i reolau'r ysgol neu'n anghyfreithlon hyd yn oed, fel cyffuriau neu eiddo wedi'i ddwyn, y gall y sawl sy'n chwilio eu cymryd oddi ar ddisgybl – gweler y pŵer i gymryd rhywbeth oddi ar rywun uchod. Ar gyfer pwerau cyffredinol i ysgolion lunio a gorfodi mesurau disgyblu, a allai gynnwys pwerau i gymryd rhywbeth oddi ar rywun, gweler Adran 1, Rhan 7 o'r ddogfen hon. Yn yr un modd â gydag arfau, dylid trosglwyddo i'r heddlu unrhyw beth y cred y sawl sy'n chwilio ei fod yn dystiolaeth mewn perthynas â throstedd ac sydd wedi'i gymryd ganddo.

Cofnodion

15.2 O ystyried bod disgybl sy'n cario cyllell anghyfreithlon neu arf arall yn yr ysgol yn cyflawni trosedd, mae'n bosibl y caiff y disgybl ei arestio gan yr heddlu, ac y bydd yr aelodau staff a fu'n chwilio'r disgybl yn cael eu galw fel tystion mewn achos troseddol. Dylai'r pennaeth ei gwneud yn ofynnol i staff sydd wedi'u hawdurdodi lunio a chadw cofnod electronig o unrhyw chwiliad cyn gynted â phosibl e.e. mewn llyfr digwyddiadau. Gall hyn helpu i atal unrhyw gamsyniad neu gamddehongliad yn ddiweddarach. Gallai cofnodion o'r fath, ynghyd â llwybrau tystiolaeth, fod o ddefnydd i'r llysoedd. Gall ysgolion benderfynu am ba hyd i gadw ffeil at ddiben canfod tueddiadau. Dylai'r cofnod gynnwys:

- enw, rhyw ac ethnigrwydd pob disgybl sy'n cael ei chwilio;
- sail yr amheuaeth;
- amser a lleoliad;
- pwy oedd y sawl a fu'n chwilio;
- pwy arall oedd yn bresennol;
- pa rym rhesymol, os o gwbl, a ddefnyddiwyd a pham;
- sut y dechreuodd y chwilio a sut y datblygodd;
- ymateb y disgybl a sut y rheolodd staff ymddygiad y disgybl (e.e. camau a gymerwyd i dawelu'r disgybl); a

- canlyniadau a champau dilynol.

Hwyrach y bydd staff am gael cyngor gan gydweithiwr neu gynrychiolydd eu cymdeithas broffesiynol wrth lunio adroddiad.

Hysbysu rhieni; cwynion

15.3 Nid yw'n ofynnol i ysgolion hysbysu rhiant cyn chwilio, na chael caniatâd y rhiant, ond hwyrach y bydd rhiant yn poeni bod ei blentyn yn cael ei chwilio. Yn ogystal â thynnu sylw at bolisi'r ysgol ymlaen llaw (uchod), rydym yn argymhell y dylai'r ysgol hysbysu rhieni disgyblion sy'n iau na 18 oed eu bod wedi chwilio eu plant, gan roi cyfle iddynt drafod y mater. Hwyrach y bydd rhiant yn cwyno am sgriniad neu chwiliad i'r pennaeth, y corff llywodraethu neu'r cyflogwr. Mae'n rhaid i ysgolion lunio gweithdrefn gwyno (un gyffredinol, nid un benodol i chwilio) a thynnu sylw ati.

15.4 O dan rai amgylchiadau, argymhellir na ddylid hysbysu rhieni, er enghraifft os deuir o hyd i rywbeth a allai fod yn dystiolaeth o drosedd yn ymwneud â'r rhiant hefyd. Ni ddylid chwaith hysbysu rhieni os credir y byddant yn ymddwyn yn ymosodol tuag at y plentyn ar y rhagdybiaeth gamsyniol fod y plentyn wedi gwneud rhywbeth o'i le, er na ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth, am fod gan staff reswm i'w amau (sydd, mewn gwirionedd, yn ddi-sail).

Gwahardd

15.5 “bydd amgylchiadau eithriadol lle, ym marn y pennaeth, y bydd yn briodol gwahardd plentyn yn barhaol am drosedd gyntaf neu am un digwyddiad penodol. Gallai'r rhain gynnwys... defnyddio neu fygwth defnyddio arf bygythiol.” (*Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, Dogfen ganllaw 081/2012*).

Cyllid

15.6 Mae'r pŵer i sgrinio a'r pŵer i chwilio yn bwerau y gall ysgolion ddewis eu defnyddio neu beidio â'u defnyddio, trwy ddefnyddio cyllid sydd eisoes ar gael iddynt i hyfforddi staff, ar gyfer cyfarpar neu ar gyfer diogelwch, neu o ran arall o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol.